

ECO'R WYDDFA

Rhif 244

EBRILL 1998

Pris 30c

Da iawn, Derfel



Mae gŵr lleol wedi derbyn gwobr tystysgrif arbennig i gydnabod yr help a roddodd i achub bywyd bachgen ifanc tair ar ddeg oed ar un o draethau Ynys Môn y llynedd.

Roedd Derfel Owen, 9 Stryd yr Wyddfa, Llanberis yn cerdded ar draeth Llanddwyn fis Mai diwethaf pan glywodd ddynes yn galw am help. Rhedodd Derfel a thri dyn arall ati a deall bod y twyni tywod yr oedd y bachgen yn chwarae danynt wedi syrthio a'i gladdu dan dunelli o dywod. Llwyddodd Derfel a'r tri arall gael y bachgen yn rhydd trwy balu'r tywod efo'u dwylo a rhawiau glan môr. Bu'r bachgen

dan y tywod am rhyw ddeng munud cyn cael ei ryddhau, ac onibai am ymdrechion caled Derfel a'r lleill byddai'n sicr wedi marw. Mae'n debyg bod y cap pig yr oedd y bachgen, Nathan Priestley o Sir Gaerhirfryn, yn ei wisgo wedi arbed y tywod rhag mynd i'w wyneb a'i fygu. Yr oedd hyd yn oed yn ddigon da i'w ryddhau o'r ysbyty ychydig oriau wedi'r digwyddiad.

Cafodd cymorth amhrisiadwy

Angen cymorth . . . a chymorth ar gael

Bydd rhai o aelodau Eglwys Llanddeiniolen yn mynd ati i geisio tacluso a chynnal mynwent yr eglwys yn ystod yr haf eleni. Bwriadant gyfarfod yn rheolaidd am 7 o'r gloch bob nos Lun, a chaniatáu bod y tywydd o'u plaid, o 4 Mai ymlaen. Maent yn apelio am gymorth trigolion yr ardal gyda'r gwaith pwysig hwn.

Mae nifer aelodau'r eglwys yn lleihau bob blwyddyn bron ac o'r herwydd mae'r gost o gynnal y fynwent yn dachus yn peri pryder i'r aelodau. Byddai unrhyw rodd ariannol at gynnal y fynwent felly yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Gellir cyflwyno unrhyw roddion trwy law Mr Idris Morris, Y Fachell, Llanddeiniolen; neu Mr J. Foulkes, 6 Tan-y-cae, Bethel.

Bydd o ddiddordeb i bobl plwyf Llanddeiniolen wybod am gyfrol sydd wedi'i chyhoeddi gan Gymdeithas Hanes Teuluoedd Gwynedd. Ynddi cofnodwyd arysgrifau cerrig coffa'r fynwent. Mae'r gyfrol ar werth am £9.50. Y gyfrol gyntaf o ddwy yw hon, ac mae'r ail bron yn barod i'w chyhoeddi. Os oes gan rywun ddiddordeb mewn prynu'r gyfrol, cysylltwch â Gwyndaf Williams, 1 Tan-y-cae, Bethel neu â Jack Foulkes, 6 Tan-y-Cae, Bethel. Mae cyfrol mynwent Capel Bethel, Arfon ar gael hefyd am £3.

Y nesaf i'w chyhoeddi fydd cyfrol o arysgrifau cerrig coffa mynwent Eglwys Gedol Sant, Pentir. Mae'r gwaith o gofnodi cerrig mynwent Eglwys Mihangel Sant, Llanrug newydd ddechrau ac erfynnir am wirfoddolwyr i helpu gyda'r gwaith pwysig hwn.

Gellir cael cyfrolau o arysgrifau'r mwyafrif o fynwentydd Gwynedd gan gynnwys Nant Peris, Capel Mawr Llanrug a Chaeathro, trwy gysylltu â'r ddau gyfaill uchod neu swyddog cyhoeddi Cymdeithas Hanes Teuluoedd Gwynedd, Ms Yvonne Edwards (01248) 670267.

TRAFOD PROBLEMAU SGWÂR LLANRUG

Daeth dros 60 ynghyd i'r cyfarfod cyhoeddus a drefnwyd gan y Cyngor Cymuned i ystyried y problemau traffig yng nghyffiniau sgwâr Llanrug. Cadeiriwyd y noson gan Gadeirydd y Cyngor, P. J. Rowlinson a chroesawodd y ddau Gynghorydd lleol ynghyd â'i llongyfarch am eu hymdrechion i geisio datrys y problem.

Amlinellodd Mr Rhys Prytherch, Adran Prifffyrdd, Cyngor Gwynedd, yr argymhellion oedd dan ystyriaeth i wella'r sefyllfa bresennol. Croesawyd y newyddion y byddai sustem tawelu traffig a gwelliannau i'r arwyddo yn cael ei gwireddu yn y flwyddyn ariannol bresennol, ynghyd â gwelliant i'r drofa o'r A4086 i Ffordd Cawia. Nododd Mr Prytherch hefyd y bwriad i gychwyn ar y broses ymgynghoriad cyhoeddus a fyddai'n cychwyn yn fuan ynglŷn â chyfyngu parcio ar y gornel ger

(Parhad ar dudalen 5)

ECO'R WYDDFA

Rhif 244
EBRILL 1998

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard L. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR

Gwynnaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

DATBLYGU LLUNIAU

Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi,
Bangor (01248) 353337 neu 871925

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU

Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion, Pontrug
(673696)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIAN POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248 670726)

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,

6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,

7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion

Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn

Moelyn (675384)

NANT PERIS: Ann Cumberton,

Gwastadnant (870356)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,

Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,

Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,

Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, EBRILL 30

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS LUN, EBRILL 20

Os gwelwch yn dda

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570

RHIFYN	DYDDIAD COPI	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU A
MAI	EBRILL 20	EBRILL 30	DEINIOLLEN	Mr W. O. Roberts
MEHEFIN	MAI 18	MAI 28	BRYNREFAIL	Mrs L. P. Roberts Williams
GORFFENNAF	MEHEFIN 22	GORFFENNAF 2	BETHEL	Mr Geraint Ellis
AWST	—	—	—	—
MEDI	AWST 24	MEDI 3	DINORWIG	Miss Marian Jones
HYDREF	MEDI 21	HYDREF 1	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans
TACHWEDD	HYDREF 19	HYDREF 29	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans
RHAGFYR	TACHWEDD 16	TACHWEDD 26	CAEATHRO	Mr Clive James

Llythyrau

Clwb Prynu Ynni

Annwyl Olygydd,

Cyn bo hir daw newidiadau mawr
ym marchnad nwy a thrydan yng
Nghymru. Ar hyn o bryd mae bron
pawb ym mro'r Eco yn prynu nwy
gan Nwy Prydain a'u trydan gan
MANWEB — gwariant sy'n werth
miloedd o bunnoedd bob blwyddyn
i'r cwmnïau hynny.

Yn y dyfodol agos bydd nifer o
gwmnïau yn cystadlu am y farchnad
ac yn ceisio ein perswadio i brynu
ynni ganddyn nhw. Yn ôl yr
awdurdodau, bydd y gystadleuaeth
hon yn golygu gostyngiad ym mhris
ynni i ni i gyd.

Beth ddigwyddai pe bai holl
ddarllenwyr yr Eco, a busnesau lleol
hefyd, yn sefydlu Clwb Prynu Ynni,
er mwyn taro bargaen gyda'r cwmni
sy'n cynnig y prisiau isaf i ni fel
cwsmeriaid? Wrth gwrs, byddai'r
drefn biliau nwy a thrydan yn dal fel
y maent ar hyn o bryd — rhwng yr
unigolyn a'r cwmni — ond fe fyddwn
i'n rhagweld gostyngiad sylweddol
ar ein cyfer ni pe baem ni'n
gweithredu fel Clwb yn hytrach nag
fel unigolion.

Rwy'n ymwybodol bod o leia un
papur lleol yn Ne Cymru yn sefydlu
Clwb Prynu Ynni fel hyn. Oes yna le
i'r Eco chwarae rhan ganolog er
mwyn cael y fargen orau ar gyfer
trigolion yr ardal?

Hoffwn glywed barn eich
darllenwyr ynglŷn â'r syniad.

Yn gywir,

JOHN FRASER WILLIAMS

23 Lôn Tŷ Du

Llanberis, Gwynedd LL55 4LH

Ffôn: (01286) 870136

CYMANFA GANU

yng nghwmni

CÔR Y WAUN

Arweinydd: Mrs Gwenda Griffith

GLYN WILLIAMS (Tenor)

Borth y Gest

NOS SUL, 26 EBRILL 1998

YNG NGHAPEL

CROESYWAUN, WAUNFAWR

am 7.30 p.m.

Tocynnau: £2 oedolion £1 plant
ar gael gan aelodau'r Côr
neu wrth y drws



Ar wib atoch chi.

Bydd croeso i bawb o ardal Waunfawr ymweld â'r Tele Cabana
yn ANTUR WAUNFAWR rhwng 29 Mehefin a 4 Gorffennaf


HYFFORDDIANT A HWYL

- * Ydych chi angen hyfforddiant mewn sgiliau cyfrifiadurol?
- * Pwy sydd isho gwybod mwy am y rhyngwyd a'r rhaglenni diweddaraf?
- * Pwy sydd isho magu hyder i ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf?

Darperir cyngor a hyfforddiant yn rhad i blant, pobl ifanc ac
oedolion — pobl mewn gwaith a'r di-waith, yn ystod yr
wythnos.

Bydd manylion cofrestru ar gael o ANTUR WAUNFAWR yn
ystod mis Mai a Mehefin.

Ffoniwch Heulwen Huws ar
(01286) 650 721



Y SGWÂR LLANRUG

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol

Cerrig o bob
math ar gael

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)

Alwyn a Sarah Jones

RACCA PENISARWAUN

★ Blodau ar gyfer pob
achlysur

hefyd

★ Dewis da o Lysiau
Fferm

★ Wyau Free Range
Ar agor saith diwrnod



870605

LLYSIAU AR
GYFER PICLO

Llythyr o'r 'Mericia

CAMBRIA, P.O.
WISCONSIN
U.S.AMERICA
April 13th/84

Anwyl frawd,

Derbyniais dy lythyr dydd Iau diwethaf, ac yr oeddwn yn wir falch o hono. Yr oeddwn yn deall oddiwrtho dy fod yn gwella yn dda, achos i mi buasai neb sal iawn yn gallu cyfansoddi llythyr cyffelyb iddo. Gwn yn dda amdanaf fy hun pa bryd gallaf gyfansoddi llythyr, ni byddaf yn teimlo hwyl ond un fur anaml, ac felly y byddaf yn meddwl am eraill. 'Y ffordd orau o adnabod eraill ydyw adnabod eu hun' yn gyntaf, onide? Achos y mae rhywbeth ym mhawb yn debyg i'w gilydd. Pan yr ydym o'r un natur oll. Ac felly gallaf ddweud am danat tithau, dy fod yn teimlo yn fwy llawen yn dy lythyrau nag yr wyt wedi bod ers ychydig amser yn ol. A dyma yw fy nymuniad, dim ond i ti barhau i gynyddu er gwell o hyd nes i ti ddod fel o'r blaen.

Wel, beth i fyned atti ym mhellach, tybed nad ydych wedi gofyn y cwestiwn hwn yna lawer gwaith bellach, ym mha le y mae o yn cael defnyddiadau yr holl lythyrau y mae yn ei anfon? Byddaf yn aml yn myned atti i ddechrau ysgrifennu heb wybod yn y byd pa fath lythyr a ddaw allan drwy y 'peiriant ysgrifenyddol', ac yn wir nid 'peiriant meddyliol' fydd ei h'enw hi yn aml.

Yr oedd yn dda gennyf glywed am Thomas, a'i fod yn glynu mor dda at yr Hafod. Fe wnaiff gwmpeini mawr i Nain. Yr oeddwn yn clywed Ellen yn dweud ei fod wedi prifio llawer iawn. Fe wnaiff nodiad amoch oll yna yn bur ddoniol hefyd.

Buaswn yn meddwl eu bod wedi gweled pethau rhyfedd ar eu taith yna. Y peth cyntaf a welodd Ellen i sylwi arno ar ol glanio yn New York oedd llwyth gwagen o Soda, ac erbyn iddi deithio tua 1200 o filldroedd hyd yma, yr oedd y llwyth Soda wedi newid yn lwyth o rew.

Bum yn edrych am Lizzie nos

Wener diwethaf, ac yr oedd yn edrych yn gartrefol ryfeddol yn ei lle newydd. y mae wedi cael llythyr gan John Parry heddyw, ond ni welais mo honi etto i gael gwybod dim am ei hanes. Nid wyf wedi gweled dim byd tebyg i hiraeth yn agos atti o gwbl, ac mae y teulu lle y mae yn aros yn dweud yr un peth.

Bum yn edrych am Ellen yn Cambria neithiwr, ac y mae hithau yn lecio ei lle yn iawn. Nid oes dim hiraeth wedi gafael ynddi hithau chwaith. Yr wyf yn meddwl fod Ellen wedi taro ar well lle nag ydyw Lizzie, hynny ydyw, gwell lle i ddysgu pethau, achos y maent mewn uwch style o dipyn na lle mae Lizzie. Yr hyn fydd yn fantais fawr iddi, y mae yn cael pob caredigrwydd sydd yn bosibl iddi gael ganddynt yno, a gwneuthur fel a byddo yn dewis gyda phopeth. Y mae wedi rhoddi ei phapur yn y Society, er nos Fawrth. Ychydig iawn o wahaniaeth a ganfyddai rhwng capel Cambria a chapelydd yr Hen Wlad. Dyna dipyn ar gwestiwn y merched.

Y mae wedi dechreu yn Spring o ddifrif yma yr wythnos ddiweddaraf yma, y tywydd yn sych a chynnes, a'r rhew a'r eira wedi ein gadael yn llwyr, a phawb yn dechreu troi ei wyneb i'r maes aredig.

Y mae yma ugeiniau o geffylau allan wrthi yn aredig i'w gweled ar un olwg yma, ac yn eu plith yr wyf innau yn cael y fraint o fod. Yr wyf wedi bod wrthi er wythnos ddiweddaraf yn aredig gyda 2 geffyl ac aradr llaw. 30 acres oedd maint y cae yr oeddwn yn dechreu arno, a phob cwys yn hanner milldir o hyd. Byddaf yn dechreu tua 8 yn y bore, ac yn dal atti tan 5 yr hwyr. Byddaf yn meddwl meddyliau rhyfedd iawn pan wrthf fy hun yn aredig. Byddaf weithiau yn anghofio mae yn Wisconsin yr ydwyf ac yn bur ddifeddwl a gwrndaw, a chlywaf mor gog yn canu, a phan y byddaf wedi sylweddoli ei habsenoldeb ai dieithrwch o'r wlad yma byddaf yn cofio mai nid yng Nghymru y byddaf. Y maent yn ceisio dwewud ei bod yma, a'i bod yn canu hefyd,

ond clywais a gwelais yr aderyn y maent yn ei alw yn gog, ond nid yw ei ymddangosiad a'r foneddiges sydd yng Nghymru, ac hefyd nid yw ei chw-cw ond fel swn dylluan ar noson farigog, a'r gwirionedd am dani ydyw, mai cog America ydyw colomen wyllt yr Hen Wlad. Llauer o drwr sydd wedi bod mewn perthynas a wnaiff y gog ganu ar y peth yma a'r peth arall, ond gwir un peth, sef na chan y gog arnaf i eleni beth bynnag. Y mae y deimlad digon cas meddwl peth felly, onid yw, ond dyna'r gwir, nid oes dim yw wneud ond cysuro ei hun, gan ddisgwyl y gwnaiff y gog ganu arnaf rhywdro, a gobeithio y bydd gennyf arian yn fy mhoced hefyd.

Gwelais compliments mawr i Lizzie yn y Genedl. Yr wyf wedi guessio mai Thomas Ysptyty ydyw neu Tom Rhys, mi ddywedaf wrthi hefyd pan yr ysgrifennaf atti. Yr oeddyt yn anfon cofion cynes amryw oddiyna yn dy lythyr diweddaraf a'r ganlyniad teilwng yw i minnau dalu y cofion yn ol iddynt hwythau yn y modd gwresycaf. Ni wiiw dechrau enwi pawb o'r hen gyfeillion, cofia fi attynt oll.

Derbyn dithau fy nghofion yn uwch na phawb gan hyder y bydd iddo dy gael yn gwella fel yr wyt wedi dweud wrthyf.

Ydwyf dy frawd

OWEN

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

Y GYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL. Nos Iau, 19 Chwefror, cawsom noson yng ngofal Mr David John Jones o Gaernarfon. Un o blant yr ardal yw David ond wedi ymadael ers dros hanner canrif bellach. Cawsom noson ddiddorol iawn yn ei gwmni yn sôn, ac yn dangos sleidiau, ei hanes yn cerdded Clawdd Offa. Llywydd y noson oedd Miss Marian Jones a diolchwyd gan Mrs Megan Morris.

I gau'r tymor am eleni cafwyd cinio Gŵyl Ddewi yng Nghonwy ac fe aeth llond bws ohonom yno a da yw deall fod pawb wedi mwynhau y bwyd. Wedi'r bwyd aed ymlaen wedyn i Landudno am y prawn. Diolch i Mr Ieuan Williams am y bws ac i'r gyrrwr am fynd a ni yno ac yn ôl yn saff.

Y GANOLFAN. Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus ar 17 Chwefror. Miss Marian Jones oedd yn y gadair. Siomedig unwaith eto oedd y nifer a ddaeth i'r cyfarfod. Pasiwyd nad oes newid i fod yn y tâl am logi'r Ganolfan a'i bod yn rhaid talu. Pwysleisir bod yn rhaid cadw at y rheolau. Gwrthodir unrhyw gais am ostyngiad yn y pris.

Pasiwyd i anfon llythyr o ddiolch i Eglwys M.C. am y rhodd o lestri a'r cytlyri a phasiwyd bod yn rhaid eu cadw dan glo. Deallwn fod clo wedi'i osod bellach gan Mr John Brenon, Afallon a Mr Evan Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol a diolchwn i'r ddau am fod mor barod eu cymwynas. Os torrir unrhyw lestr bydd yn rhaid talu amdano.

Ni phenderfynwyd ar ddyddiad y cyfarfod nesaf.

EISTEDDFOD. Erbyn hyn mae'r Testunau wedi'i cyhoeddi a phawb yn brysur, gobeithio, yn paratoi. Mae yna newid pwysig wedi cymryd lle — oherwydd bod y pasiant blynyddol yn Seilo, Caernarfon, a bod bws yn mynd o'r ardal ar y noson honno, ac er ceisio nid oedd modd inni newid y dyddiad. Felly rhaid oedd i bwyllgor yr Eisteddfod gysylltu â'r tri beirniad a'r cyfeilyddion i holi a ellir newid y noson. Diolch yn fawr iddynt oll am fod mor barod i gydweithredu. Dyddiad yr Eisteddfod fydd nos Fawrth, 14 Ebrill am 6.30 o'r gloch. Y tâl mynediad i oedolion fydd 50c ac 20c i blant.

Dyma'r dyddiadau pwysig — Llenyddiaeth: rhaid i'r cynhyrchion fod yn llaw y trefnydd erbyn dydd Gwener, 3 Ebrill.

Adran Ceginio: y deunydd i fod mewn llaw erbyn nos Lun, 13 Ebrill. Bydd y Ganolfan ar agor i'w derbyn rhwng 5 a 6.30 p.m.

Adran y Plant: y cynhyrchion i fod yn llaw y trefnydd erbyn nos Iau, 9 Ebrill.

Celf a Chrefft: Y Ganolfan ar agor i dderbyn y cynhyrchion nos Lun, 13 Ebrill, rhwng 5 a 6.30 o'r gloch.

Mae popeth arall yn aros fel yn y Testunau.

CYDYMDEIMLAD. Anfonwn ein cydymdeimlad llwyraf i Miss Morfydd Hughes Jones, Bryn Hyfryd yn ei phrofedigaeth o golli Emyr, ei chefnider, yn Llundain; ac hefyd ei modryb Gaynor yng Nghwmddar. Ei modryb wedi'i geni a'i magu yn Nhŷ Capel Sardis.

Anfonwn ein cydymdeimlad llwyraf hefyd i Mr Phillips Jones, Tŷ Capel Sardis yn ei brofedigaeth o golli ei ewythr, Goronwy, yn Neiniolen. Mae'n debyg fod nifer o'r ardalwyr yn cofio Goronwy yn dreifio bysus 'Joni Huws' am flynyddoedd. Nawdd y nef fo gyda'r teuluoedd yma yn eu profedigaethau.

DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIRYDD. Cynhaliwyd yr uchod yn Y Ganolfan ddydd Gwener, 6 Mawrth, ac er gwaetha'r tywydd cafwyd cyfarfod bendithiol. Llywyddwyd gan Mrs Irene Morris ac arweiniwyd y gwasanaeth gan Mrs Katie Lloyd Hughes a Mrs Betty Peris Roberts. Rhoddwyd yr anerchiad gan Miss Nellie Wyn Jones. Mrs Dilys Williams oedd wrth yr offeryn a chymerwyd rhan gan Mrs Alice Griffith, Mrs Elizabeth Jones, Miss Morfudd Jones, Miss Maggie Jane Jones a Mrs Betty Roberts. Gwnaed casgliad o £16.

CEFNOGI RHAGLEN DELEDU. Cynhaliwyd noson o Foes a Phryn yn y Ganolfan er mwyn casglu arian i'r rhaglen deledu 'Blue Peter'. Dymuna'r trefnwyr ddiolch i bawb a'i cefnogodd. Gwnaed elw o £83.50.

MAE

SHARON VAUGHAN WILLIAMS
B.A. (Anrh.) Dip Perff

YN CYMRYD DISGYBLION
AM WERSI PIANO, CANU
A THEORI.

Cysylltwch â hi yn
YNYS IAGO, PENTIR

Ffôn: (01248) 353746

GARTH MAELOG PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dŵr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...



BYSIAU ARFON
LLANRUG

(Eric Morris)

Ffôn: (01286) 675175 a 677858

CHWILOTA

PWY YW'R AWDURON?



Yn ystod yr wythnosau a aeth heibio daeth amryw o ganeuon a phenillion i law gan wahanol ddarllenwyr, ond yn anffodus heb awdur i'r un ohonynt. Cais gan y darllenwyr sydd y mis hwn felly, i ddarganfod pwy yw awduron rhai o'r cerddi.

Mae'r gân gyntaf yn disgrifio pryd o fwyd sydd yn dal mor boblogaidd heddiw er gwaethaf yr holl raglenni coginio di-ri sy'n llenwi ein horiau gwyllo ar y teledu — 'Sgod a Sglod' — neu a rhoi iddo ei enw traddodiadol, 'fish a chips'.

- | | | | |
|--|--|---|---|
| 1. Sonied saint am basgedigion
A phuredig loywaf win;
Sonied snobs am seigiau breision,
Cocktails chwilboeth ar eu min;
Llanwed bonedd glwth eu boliau
Â phob dantaith foddia'u pryd;
Boed i'r Epiciwriaid hwythau
Gnoi a'u gwneio'n wyn eu byd.
Boed yn braf neu boed yn bwrw,
Fish a chips a pheint o gwrw
Yw'r danteithion gorau i gyd. | 3. Llaeth i loi a the i ferched,
A melysion brau i blant;
Dwfr i ych fo'n fawr ei syched,
Salm i glust a chalon sant;
I gariadon boed cusanau,
Cywion ieir i weision lôr
I ddiwallu ystumogau
Llifed digon drwy bob dôr.
Boed yn braf . . . &c | 2. Moled eraill win awenau
Nectar doniau'r duwiau doeth,
Drachtier asbri o gostrelau
Llawn o'r puraf wirow poeth;
Llynced Ffrancwyr fil o falwod
A'r uchelwr betris bras;
Caffed Nafi gaws a nionod
A phob Calfin gig a gras;
Boed yn braf . . . &c | 4. Pan ddiolchir am gynhaeaf
Am holl drugareddau gwlad,
Molir y bendithion mwyaf
Gan anghofio'r rhoddion rhad;
Os oes haedda frwd glodforedd
Gan bechadur tlawd a sant;
Dylid diolch am drugaredd
Ddaw yn rhwydd o'r dwrn i'r dant.
Boed yn braf . . . &c |
|--|--|---|---|

Pwy, felly, yw awdur 'Fish & Chips', a pha bryd y cafodd y gân ei chyfansoddi?

Pennill wedi ei ysgrifennu ar ffurf englyn yw'r nesaf, ond unwaith eto, does dim syniad pwy yw'r awdur. Fe'i hanfonwyd gan Mrs Gwyneth Lloyd, Caernarfon ar ran cymydog iddi. Ysgrifennwyd y pennill i Richard Thomas, 4 Llifon Terrace, Bontnewydd pan oedd yn ymadael â Chwael Dinorwig ar y deunawfed o Ragfyr 1924. Roedd yn gweithio ar y pryd yn Tophet. Nid yw'n eglur a'i gorffen gweithio yn Tophet cyn symud ymlaen i ran arall o'r chwael a wnaeth, yntau ai

ymddeol o'r chwael yn gyfan gwbl yr oedd bryd hynny. Efallai y gall rhai o ddarllenwyr *Lleu* roi rhywfaint o gymorth i ddarllenwyr yr *Eco* ynglŷn â hanes Richard Thomas. Dyma'r pennill:

Heddiw, cyflwynwn i ti — nid cardod
Ond rhodd i'th sirioli;
Y Drychwydrau hyn yn fawr eu bri
I'th loni yn Sinc Wali.

Efallai y gall rhai o gyn-chwaelwyr yr ardal egluro cysylltiad Sinc Wali â Thophet. A tybed a yw'r 'drychwydrau' yn dal ym mherchnogaeth aelodau o deulu Richard Thomas heddiw?

Mae'r gân nesaf yn amlwg wedi ei hysgrifennu o brofiad! Bu awdur y tri phennill hwn yn dioddef cryn dipyn mae'n amlwg, ac efallai fod y profiad yn bur gyffredin i nifer eraill o ddarllenwyr y golofn! 'Cân y Cymry' yw'r testun, ond wyddoch chi pwy oedd yr awdur?

Cym, cym, cym
Dau gyfaill yn flin ac yn chwyrn,
Yn chwilboeth eu gwaed,
Yn ingol eu traed,
Yn damio a fflamio,
yn rhegi a sincio,
Yn gwylltio a diawlio,
Fel cathod na welwyd eu tebyg erioed
Oherwydd y cym dan wadnau eu troed.

Cym caled, crwn,
Yn gwneuthur bywyd y ddau yn bwn,
Nes bron ei ddiweddu ag ergyd o wn
Y naill fel y llall
Yn cwyno'n ddi-ball
Gan rodio yn dendar
Dros wyneb y ddaear
Ag eli a phlastar
Dan wadnau pob troed
Y ddau mwyaf poenus a welwyd erioed.

Cym mawr, mawr,
Nes ofni cyffwrdd y traed ar lawr,
Fel miniog bicellau,
Bidogau a saethau,
Yn treiddio yn waeau
Drwy'r coesau bob awr;
Ni allant roi cam
Heb weiddi'n groch 'Dam'!
Ac yna roi llam
Gan feltithio mewn loes
A'r boen megis uffern yn fflamio
'mhob coes.

LLECHI SGWENNU O'R CRAWIA

Mr Cledwyn Williams, Tŷr Ysgol, Llanrug sy'n cadarnhau

fod llechi o Felin Crawia yn cael eu hanfon i'r India. Mae'n adrodd hanes a ddigwyddodd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf pan oedd criw o ddynion ieuainc o fro'r *Eco* wedi glanio yn Alexandria mewn llong ryfel. Ymhlith y llongwyr roedd y canlynol o Lanrug: Richard Evans, Lei Pritchard, Griffith Roberts a Huw Griffith, Bryn Maen, athro Cymraeg yn Ysgol Ramadeg Caernarfon. Dyma sut mae'n adrodd yr hanes: 'Cerddodd y bechgyn gyda'i gilydd yn fintai hapus. Yn sydyn dyma Huw Griffith yn gweiddi a chodi ei fraich a phwyntio â'i fys: "Beth ydi'r crêt acw, sgwn i. Rwyf am fynd draw i weld." O edrych arno, roedd yn amlwg ei fod yn grêt cadarn, wedi ei amgau yn feistrolgar â phlanciau preiffion. Wrth ddynesu, gwelid llythrennau breision o baent du, "Thomas J. Jones, Crawia Slate Works, Llanrug, Caernarvon, North Wales". Y crêt wedi ei gyfeirio i fasnachwr yn India, a'i gynnwys oedd llechi ysgrifennu ar gyfer ysgolion yno.'

Y mis nesaf cawn hanes un arall o Felinau'r Saint.

Anfonwch unrhyw wybodaeth am awduron y caneuon neu unrhyw ymholiad ynglŷn â hanes lleol bro'r *Eco* i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (01286) 673515.



SLIM CHWIM MEWN DIM! heb lwgu na chwysu

Cael gwared o'r bloneg a'r bol
Yn llesol natruiol, di-lol

CREDWCH! HOLWCH!
ffonlwch (01286) 830609
— TENEUWCH —
SLIM CHWIM MEWN DIM!



ELLIS WYN

SIOP Y BARBWR, CAERNARFON . . .

- Rŵan wedi ailagor yn YR HEN FARCHNAD, STRYD Y PLAS, CAERNARFON
- Hefyd yn galw yn eich cartref
- Ffoniwch am apwyntiad

678963 (GARTREF) 0411 457215 (SYMUDOL)



AR AGOR: Llun i Sadwrn 9.00 - 4.00
Waunfawr, Caernarfon, Gwynedd
01286 650 721

MEITHRINFA

ANTUR WAUNFAWR

Newydd yn 1998:

- dewis helaeth o blanhigion bythol anghyffredin yn ein meithrinfa.
- planhigion gwelyau
- llwyni a dringwyr
- perllysiau
- basgedi blodau sych a dysgiau planhigion tŷ.

- . Parc antur i blant
- . Gerddi Celtaidd
- . Parc natur 8 erw llawn llwybrau a phyllau bywyd gwyllt
- . Crefftau a chaffi

CABAN ECOLEG - ar agor o fis Mai i arddangos dulliau o ynni amgen o'r haul, dŵr a gwynt.

**RHYWBETH AT DDANT PAWB -
GALWCH I'N GWELD.**

NURSERY

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH Tŷ (i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)

Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)

John Eifion (Penisrwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

DAFYDD OWEN TRYDANWR

Pob math
o waith trydanol
a Larwmau Lladron



Aelod o'r

**11 Rhes Faenol
LLANBERIS**
Ffôn: (01286) 871680

(Parhad o dudalen 1)

Y Storfa gan ddefnyddio llinellau melyn dwbl.

Roedd y cyfarfod yn unfrydol yn ei benderfyniad y dylid ysgrifennu yn y modd cryfaf posibl at yr Heddlu yn datgan eu hanfodlonrwydd ynglŷn â diffyr presenoldeb unrhyw swyddog yn y cyfarfod pwysig hwn.

Yn eu cyfarfod dilynol bu i'r Cyngor Cymuned benderfynu ymholi ymhellach i'r posibilrwydd o ddynodi Llanrug yn 'Barth Gwirio Cyflymder' yn debyg i'r sefyllfa bresennol ym Methel. Byddai'r Cyngor hefyd yn gwahodd Adran Prifffyrdd, Cyngor Gwynedd i gario allan arolwg ymarferoldeb i'r opsiynau oedd ar gael i osgoi defnyddio'r sgwâr o gyffiniau Ffordd yr Orsaf.

Penderfynwyd ymhellach y byddai unrhyw gyfarfod cyhoeddus a drefnir gan y Cyngor yn cynnwys darpariaeth cyfieithu.

Derbyniwyd y cais cynllunio oddi wrth ddatblygwr Stad Minffordd, Llanrug yn ddiwrthwynebiad ar wahân i'w pryder cynyddol ynglŷn â'r pwysau sy'n cael ei roi ar sustem carthffosiaeth leol gan ddatblygiadau tebyg.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn y Sefydliad Coffa, Llanrug ar 21ain Ebrill am 7.00 o'r gloch.

CLWB ERYRI

Cafwyd cefnogaeth dda i'r cinio Gŵyl Ddewi a drefnwyd nos Wener, 6 Mawrth, yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis. Cynigiwyd braslun o brif ddigwyddiadau'r tymor a fu gan y llywydd, Cledwyn Pritchard Jones, cyn cyflwyno'r siaradwr gwadd, y Dr Gwilym Arthur Jones, Bangor. Traddododd yntau'n ddifys ar rai o enwogion hen dref Caernarfon gan ganolbwyntio i sylwadau'n arbennig ar yr Athro T. Hudson Williams, clasurydd, ieithydd ac ysgolhaig arbennig ei ddoniau. Ar ei ddiwedd glo, cynigiwyd cerydd cynnil i'r pwerau sy'n bod na ddangoswyd mwy o ddiddordeb mewn rhoi mwy o gyhoeddusrwydd teimlwng i hwn ac eraill a enwyd sy'n gynhenid o'r dref ac yn glod i'w henw. Diolchwyd i'r siaradwr a phawb a hyrwyddodd weithgareddau'r tymor gan yr is-lywydd, Bobby Williams, yn ei ffordd ddihafal ei hun.

Manteisir ar y cyfle i atgoffa'r swyddogion y bydd cyfarfod o'r cyfryw nos Lun, 11 Mai i drafod rhaglen a chynlluniau i'r dyfodol i'w cyflwyno i'r aelodaeth gyflawn ar ddydd y wibdaith flynyddol Sadwrn, 20 Mehefin. Ceir manylion pellach ynglŷn â'r ddau ddigwyddiad mewn da bryd.

IOLO HUWS ROBERTS

Holi am Benillion

(Yng ngholofn 'Chwilota' y mis yma mae holi am awduron hen ganeuon, a thrwy rhyw gyd-ddigwyddiad, fe gysylltodd Mrs Elizabeth May Edwards o Garmel, Treffynnon a'r 'Eco' ar drywydd tebyg. Un o'r Waunfawr yw Mrs Edwards yn enedigol ond symudodd i Waen Hywel, Pontrhythallt ac wedi iddi briodi fe ymargrefodd hi a'i diweddar wr, Mr Cledwyn Edwards, yn Nhreffynnon. Dyma fel yr eglura Mrs Edwards y cefndir i'w chais — Gol.):

Meddwl yr oeddwn i tybed a fuasech chi yn gallu fy helpu ynglŷn a rhyw hen adroddiad a ddysgais i flynyddoedd yn ôl. Yn ein Cymdeithas ni yma yr wythnos hon cafwyd 'Brethyn Cartref' a daeth un o'r merched a dwy gwpan — un â lluniau rhyfel a'r llall yn dynodi heddwch. Cofiais innau yn syth am hen adroddiad glywais yn Eisteddfod Waunfawr — 'Y Ddau Ddarlun' gyda rhai penillion yn sôn am ryfel a'r lleill yn sôn am heddwch. Roeddwn i tua wyth oed ar y pryd a'r 'plant mawr' oedd yn adrodd y darn a chofiaf glywed Gwaunferch (mam Eigra Lewis Roberts) yn eu drilio yn festri'r capel.

Bûm yn sôn wrth amryw yma am y darn ond nid oes neb wedi clywed sôn amdano, felly mae'n bosibl mai darn o'r ardal yna ydyw. Dim ond rhannau ohono rwy'n ei gofio —

Y DDAU DDARLUN

Mae gennym ni ddau ddarlun
Ar fur ein parlwr ni
Dewch acw rhyw ddiwrnod,
Dangosaf hwynt i chi.

Rhyfel yw un ohonynt
Yn ddim ond tân a gwaed.

??

Pelenni yn yr awyr

??

Heddwch yw'r darlun arall

??

A chyda'r cwbl fe welir
Hen fagnet hyll ei wedd

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Yn ôl y Cyng. Len Jones, Deiniolen mae yna le i bryderu ynglŷn â'r ffaith bod cyn lleied o drigolion y plwyf yn manteisio ar wasanaeth y Llyfrgell yn Neiniolen. Cafwyd gwybodaeth mai oriau agor y Llyfrgell o 20 Ebrill ymlaen fydd:

Llun	5.00 — 7.00 p.m.
Mawrth	10.00 — 12.30 p.m.
Mercher	2.00 — 4.30 p.m.
Gwener	3.00 — 6.00 p.m.

Mae gwasanaeth Llyfrgell Deiniolen yn rhydd i holl drigolion y plwyf ac apelir ar y cyhoedd i fanteisio ar hyn.

Mae'r Cyngor yn bryderus ynglŷn â chyflwr y llain tir ger yr Ysgol Feithrin yn Neiniolen. Mae'n ymddangos bod cymaint o sbwriel yn cael ei adael yno fel y gallai fod yn beryglus i'r plant.

Mae amryw o awgrymiadau wedi cael eu cynnig i Bwyllgor y Lechen Las a chafwyd adroddiad manwl am hyn. Mawr hyderir y bydd rhai o'r syniadau yn dwyn ffrwyth yn y dyfodol agos. Os oes gennych unrhyw syniadau a fyddai o fantais cyffredinol i'r plwyf, cysylltwch â'ch Cynghorydd lleol fel gal y Cyngor roi ystyriaeth iddynt.

Fu gynt ar faes y rhyfel
Yn hyrddio llu i'r bedd.

Ond heddiw ofn a dychryn
I undyn byw ni phair
Oblegid wrth ei enau
Oen bach sy'n pori'r gwair.

Dywedwch p'run ohonynt
Sydd orau gennych chi,
Rhyfel neu Heddwch. Rhyfel?
O! Heddwch a garaf fi.

Angen cymorth gyda'ch ffurflen treth incwm?
Angen gwell sustem ariannol ar gyfer eich busnes?
Angen cymorth gyda'ch chyfrifon?

Cysylltwch â

GORONWY HUGHES

Tel/Ffacs (01286) 674839

E-Bost gorhug@global.net.uk

Gweinyddiaeth Ariannol i Fusnesau Bach

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwch mewn steil —
mewn cerbyd *Rolls Royce*
ar gyfer priodasau, penblwyddi
ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833

GWASANAETH TRYDANOL

ERYRI

ELECTRICAL

FRON

DEINIOLEN

- ★ AIL WEIRIO
- ★ CAWODYDD
- ★ GOLEUADAU DIOGELWCH
- ★ LARWM-LLADRON
- ★ CYNNAL A CHADW

(01286) **870858** **SYMUDOL**
0467 774 326

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: **650291**



Ar agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

Dewis eang
o Welyau a 3P/Suites.
Llenni *Venetian* a Llenni *Roler*.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc — allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

SNOWDONIA PARK

WAUNFAWR Ffôn: 650218

- ★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★
- ★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★
- ★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★
- ★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go lawn ★

O SIAMBAR SELWYN

(neu o Cabin y 'Black Prince')

'Os daw Mawrth i mewn fel llew fe aiff allan fel oen' — dyna hen ddywediad sy'n gyfarwydd i ni bellach, ac fe ddywedir wrth gwrs i'r gwrthwyneb, 'Os daw i mewn fel oen fe aiff allan fel llew'.

Rydw i'n ysgrifennu'r llith hwn ar fwrdd y llong bleser 'Black Prince' ar y lanfa yn Santa Cruz, Tenerife. Mae'n ddydd Gŵyl Ddewi ac mae'n fore bendigedig o braf. Yr awyr yn las ddi-gwmwl a'r môr yn lasach. Ydi, mae'n ddydd o haf yma ar ynys fwy y Caneris ac mae Mawrth yn dod i mewn fel oen.

Ond i mi does wahaniaeth sut dywydd fydd hi — dod i 'mewn fel llew' wna'r mis hwn bob blwyddyn am fod dydd Gŵyl Ddewi yn dwyn i gof i mi ddau achlysur tristaf fy mywyd.

Ar y 25ain o Chwefror 1950, a hithau'n ddiwrnod oer, roedd 'nhad — a oedd yn 53 oed — yn gweithio yn Chwael Llanberis. Roedd o yn llewys ei grys am hanner dydd ac yn herio'i gydweithwyr pan awgrymwyd wrtho wisgo'i got. Ei ateb oedd, 'Hundred per cent fit, bois bach'.

Tri o'r gloch y prynhawn hwnnw fe gafodd ei daro'n wael a bu farw yn ei gartref, Bryn Alun, Bethel cyn hanner nos. 'Hundred per cent fit' am hanner dydd — wedi rhoi ei anadl olaf cyn hanner nos. Fe gladdwyd 'nhad ym mynwent Llan-ddeiniolen ar ddydd Gŵyl Ddewi 1950.

Ar ddydd Gŵyl Ddewi 1976 roeddwn i'n athro yn Ysgol Dolbadarn, Llanberis ac wrthi'n rhoi gwrs i'r plant ar y dywediad sydd ar ddechrau'r llith hwn. Oedd, roedd hi'n fore bendigedig a Mawrth yn 'dod i mewn fel oen', a'r daffodiliau yn gwenu ym mrestiau'r plant.

Ar ganol y wers daeth Stanley Owen, y prifathro, i mewn a gofyn i mi fynd gydag ef i'w ystafell. Cefais y newydd drwg fod Mam wedi'i chanfod yn wael. Es adre yn syth a chyrraedd i fod yn dyst o'i hanadl ola. Hanner awr ynghynt yn Ysgol

Dolbadarn roedd 'Mawrth yn dod i mewn fel oen'. Hanner awr yn ddiweddarach ym Mryn Alun, Bethel daeth y llew o'i gawell.

A dyna pam fod Mawrth bob tro yn dod i mewn fel llew i mi, er fod yr hin yn boeth yma yn Tenerife — bu Mam farw ar Ŵyl Ddewi ac fe gladdwyd 'nhad ar Fawrth y Cyntaf.

* * * *

Mae hi'n ddiwrnod carnifal yn Santa Cruz ac mae arwyddion iddi fod yn noson fawr neithiwr. Welais i erioed gymaint o boteli, caniau a sbwriel ar strydoedd unrhyw ddinas. Mae'r miwsig yn llenwi'r lle a'r miloedd o bobl ifanc yn hawlio'r strydoedd — y rhan fwyaf ohonyn nhw'n feddw gaib, ddwedwn i. Na, wnai ddim aros yma'n hir — fe â i yn ôl ar fwrdd y 'Black Prince' i dorheulo ac i hel meddyliau.

Santa Cruz ydi prifddinas weinyddol y grŵp gorllewinol o ynysoedd y Caneris ers 1723, er mai La Laguna ynghanol yr ynys oedd yr hen brifddinas, ac mae'n parhau fel prifddinas ddiwyllianol yr ynys. Ynys folcanig yw Tenerife ac fe welir hynny'n amlwg o edrych ar lethrau creigiog mynyddoedd Anaga. Mae poblogaeth Santa Cruz oddeutu 200,000.

Dydwn i ddim yn or-hoff o fynd o gwmpas eglwysi pan fydda i ar fy nheithiau, 'ABC tours' fydda i'n galw rheiny — 'another bloody church' — ond mae yna rai eglwysi diddorol yn sicr. Cofiwch chi, rydw i wedi gweld bedd Columbus mewn tair gwahanol eglwys yn y byd 'ma. Ond mae yna eglwys ddiddorol yn Tenerife — *The Church of the Immaculate Conception* (dydw i ddim am gynnig ei gyfieithu!) a godwyd yn 1502 ac a

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

DIOLCH. Mae Eluned Jones, 3 Bryn y Gof yn anfon cyfarthion at bentrefwyr Caeathro ac mae hi'n dra diolchgar am yr ymwelwyr caredig fu yn ymweld â hi yn Ysbyty Bryn Seiont. Diolch iddi am ei rhodd

ailadeiladwyd ar ôl tân. yn yr eglwys hon mae baner yr honnir iddi gael ei chipio o long Nelson pan geisiodd hwnnw feddiannu Santa Cruz. Yn ystod y frwydr hon y collodd Nelson ei fraich panb drawyd ef â mangel, ac mae'r union fagnet i'w gweld yn yr Amgueddfa Filwrol. Na, does gen i fawr o gariad at amgueddfeydd o'r natur yna 'chwaith.

Coeliwch neu beidio, tua wyth cilometr o Santa Cruz mae 'na draeth hir o dywod euraidd. Does 'na ddim yn anghyffredin yn hynny, meddech chi, a chithau ar un o ynysoedd y Caneris. Wel, fe gludwyd y tywod hwn o Anialwch y Sahara yn 1970 ac mae Le Teresitas heddiw yn un o draethau mwyaf poblogaidd Tenerife. Mynydd ucha'r ynys yw Tiede sy'n 12,000 tr. Na, â i ddim i ddringo hwnnw 'chwaith.

Ydi, mae hi'n dal yn boeth yma — rhy boeth a deud y gwir — ac i drigolion Santa Cruz a'r teithwyr ar y 'Black Prince' mae Mawrth yn dod i mewn fel oen.

Wythnos i heddiw, ar yr 8fed o Fawrth, mi fydda i'n croesi Bae Biscay unwaith eto — ys gwn i sut fydd o yn byhafio y tro yma? Fel oen 'ta fel llew? Tae waeth, mae gen i ffydd yn y Capten Thor Fleten a'i long y 'Black Prince' i ddod a mi i harbwr Dover yn ddiogel.

Dwi'n teimlo'n sychedig. Mi â i am lymaid. Gwin? O, na — mae hi'n ddiwrnod Gŵyl Ddewi a dŵr fydda fo yn ei yfed, yn ôl pob sôn. Mae 'na ddŵr iachus ar fwrdd y 'Black Prince' — o, oes — 'Dŵr bywiol Decantae Trofarth Conwy' sy ar label y botel. *The prince of Natural Waters*.

Wel, iechyd da i chi.

garedig i Eco'r Wyddfa. Cofiwch alw heibio Ysbyty Bryn Seiont i ymweld ag Eluned.

GWYLLIAU. Yn ddiweddar bu Geraint a Zonia Bowen, Cefn Coed, Stad Glandŵr ar eu gwyliau. Eu dewis, dim llai na Ethiopia a'r Yeman. Da iawn, pwy arall a fyddai'n mentro ym mhellach na'r Costa del Haul?

YR HEDDLU. Ddwywaith yn ystod y mis bu'r Heddlu yn ymateb i alwadau gan bentrefwyr. Unwaith bu grŵp o blant yng ngerddi'r pentref a'r ail dro o amgylch garejis preifat. A ydi'r rhieni yn gwybod ble mae eu plant gyda'r nos? Mae'n dangos yr angen sydd yna am gyfleusterau awyr agored ac o dan do ar gyfer pobl ifanc yng Nghaeathro.

GWASANAETHAU'R SUL. Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod mis Ebrill:

5: Parchg W. R. Williams (2)
12: Cyhoeddiad lleol Sul y Pasg
19: Parchg W. R. Williams (10)
26: Parchg Dafydd Hughes (2)
TYNFA FISOL. Enillwyr Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro am fis Mawrth oedd — £40: Hefin Hughes, Lleifior (19); £25: Guto a Nansi Jones, Tremallt (27); £15: Margaret Lovell, 2 Erw Wen (67); £5: Peter a Vera Hughes, Pennant (13).

LLWYBR TROED I PEBLIG. Bu nifer o ymdrechion i berswadio awdurdod priffyrdd i ddarparu lle diogel i gerdded rhwng hen ffatri Peblig a'r llwybr cul ger Glangwna. A oes yna gynhorydd sy'n fodlon ymgysgu dros gael llwybr troed diogel rhwng Plas Treflan a Bryn Eden?

CROESO. Wedi gwaith atgyweirio'r hen bost mae'r trigolion newydd, Stephen a Lynne Rees wedi symud i'w cartref newydd. Croeso iddynt i Gaeathro. Enw newydd y tŷ yw Pen Lôn.

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO
YN ABBEY ROAD



BANGOR
(01248)
354646

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis

Ffôn: (01286) 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491.

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390

UNDEB Y MAMAU. Nos Fawrth, 10 Mawrth, ymunodd cangen Undeb y Mamau Eglwys Sant Padarn â changen Cwm-y-glo a Llanrug. Gweinyddwyd Cymun Bendigaidd y Grawys gan y Rheithor, y Parchg Philip Hughes, yn Eglwys Sant Gabriel, Cwm-y-glo. Yn dilyn y gwasanaeth cafwyd lluniaeth hael wedi'i darparu gan ein cydaelodau yn yr ysgol leol. Mwynhawyd noson hynod o gyfeillgar a chroesawus ac edrychwn ymlaen am eu croesawu yma atom ni ym mis Mehefin. Datganwyd y diolch gan Mrs Nan Owen.

PROFEDIGAETH. Cydymdeimlwn yn fawr â Gerald, mab Muriel a Ted Morris, 16 Maes Padarn yn ei brofedigaeth o golli ei wraig, Pam, yn ddisymwth, a hithau ond 40 oed. Gedy ddau o blant, Gareth a Bethan.

NANT PERIS

Ann Cumberton, Gwastadnant
Ffôn: (01286) 870356

YSGOL FEITHRIN. Cafwyd parti pen-blwydd Ysgol Feithrin Llanberis yn 25 oed ar Fawrth 3ydd. Diolch i'r mamau am eu help ac i bawb am eu cefnogaeth.

GWELLHAD. Croeso adref o'r ysbyty i Mrs Brenda Roberts, Ystrad wedi llawdriniaeth yn Llandudno. Brysiwch wella.

BINGO. Bydd noson Bingo yng Ngwesty'r Dolbadarn yn Llanberis am 7.30 o'r gloch, nos Wener, Ebrill 3ydd i godi arian at Gymdeithas Clefyd y Motor Neurone. Croeso cynnes i bawb.

Y CHWAER IAWN. Nora Mullaine, ac nid ei chwaer Renee, oedd yn y llun ar dudalen Nant y tro diwethaf, a Norah ddylai fod wedi ei llongyfarch am ei llwyddiant efo'r gymnasteg. **FFARWELIO A CHROESO.** Wedi 17 o flynyddoedd yn Nhy'n Llan mae Emlyn Baylis wedi ymadael â'r Nant a symud i fyw i Gwm-y-glo. Dymunwn yn dda iddo gan ddiolch am ei gyfraniad i fywyd y pentref tra bu yn Nhy'n Llan. Diolch am ei gefnogaeth a'i groeso i wahanol ddigwyddiadau'r pentref. Ar yr un pryd estynnwn groeso i'n plith i Richard a Llinos a'r teulu sydd wedi symud i Dy'n Llan.

Dymuna Gerald ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad ac am y rhoddion hael tuag at Ysbyty Gwynedd.

DIOLCH. Dymuna Nancy Jones, 79 Maes Padarn ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau am y cardiaid, blodau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd.

WEDI GWELLA. Mae teulu Huw 'Bara' yn falch o'i weld wedi gwella ac wedi cael dod gartref. Pob lwc, dad.

PLAS PEN GWAITH. Mae'r wythnosau diwethaf wedi bod yn amser trist iawn yn Plas Pen Gwaith. Collwyd pedwar o'r trigolion mor agos i'w gilydd, sef Mrs M. Grace Williams, Bethel; Miss Jennie M. Pritchard, Llanberis; Mr Vivian Sharpe, Caernarfon; a Miss Jane Jones, Llanberis. Cydymdeimlwn â'r teuluoedd i gyd yn eu profedigaeth o golli rhai mor annwyl.

Nos Lun, 9fed o Fawrth aeth nifer o drigolion y cartref i Westy Gwynedd, Llanberis i fwynhau pryd o fwyd blasus. Diolch i berchennog y gwesty a'r staff am y croeso. Diolch i Mr Gwilym Rees Parry am helpu i gludo'r preswylwyr yno. Diolchir hefyd i Manon a Delyth am roi eu hamser i ddod yno i helpu ac i Derek Ross ac Yvonne a Mrs C. Williams. Diolch yn fawr iawn.

ENILLWYR Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn am fis Chwefror — £35: Gareth Jones, 30 Stryd Fawr (23); £25: Mrs C. Fowler, Pan Cafn (221); £15: Mrs Wakeham, Llys Orwig (150); £10: Mr G. Roberts, Ffordd Capel Coch, Llanberis (158); £5: Miss S. Pepper, Cynefin, Brynrefail (22). Enillwyr mis Mawrth — £35: Mrs H. Williams, 5 Rhes Faenol (114); £25: Menai Jarvis, 25 Dôl Elidir (218); £15: Dilys Williams, 18 Ffordd Tŷ Du (20); £10: Mrs H. Jones, Cil Coed (59); £5: Mrs C. Roberts, Coed y Glyn (211).

TAITH GERDDED. Ddydd Sadwrn, Chwefror 28, trefnwyd taith gerdded o amgylch Llyn Padarn. Rhannwyd yr elw rhwng yr NSPCC a Chronfa Cyfrifadur Michael Hughes. Fe lwyddodd pawb i gwblhau'r daith ac roedd hi'n braf iawn cael cyfarfod am banded a thamaid i'w fwyta yng nghynghesrwydd Caffi Cae Coch ar y diwedd. Hoffai'r trefnwyr ddiolch yn fawr i bawb gyfrannodd at y gronfa. Diolch hefyd i bawb a fu'n brysur yn gwneud yr holl drefniadau ar y dydd. Diolch yn fawr iawn i'r cerddwyr i gyd, ac i Pat am ei chroeso yn y Caffi.

EISTEDDFOD YR URDD. Roedd yn dda gweld nifer o blant Adran Llanberis yn cystadlu yn yr Eisteddfod Gylch yn Ysgol Brynrefail ddydd Sadwrn, Mawrth 7. Llongyfarchiadau i'r canlynol am gyrraedd y llwyfan: Angharad Fflur (ail, llefaru 8-10 oed); Tomos Parry (trydydd, llefaru 8-10 oed); ac Ian Williams (trydydd, canu 8-10 oed). Enillodd grŵp offerynnol yr Adran gystadleuaeth ola'r Eisteddfod a bydd y plant yn cystadlu yn yr Eisteddfod Sir ddiwedd mis Mawrth. Pob hwyl iddynt yn y fan honno.

FFAIR WANWYN. Bydd Ffair Wanwyn yn cael ei chynnal yn festri Capel Coch nos lau, Ebrill 2, am 7 o'r gloch. Bydd yr elw yn mynd at offer newydd i'r festri. Croeso cynnes i bawb.

LLEISIAU LLIWEDD. Byddant yn cynnal cyngerdd yn festri Capel Coch am 7.30 o'r gloch nos lau, Ebrill 16. Estynnir croeso cynnes i bawb.

DYDD GWEDDI. Cynhaliwyd gwasanaeth Dydd Gweddi Chwiorydd y Byd yng Nghapel Coch, nos Wener, Mawrth 6, gydag aelodau eglwysy'r pentref yn cymryd rhan.

DIOLCH. Dymuna teulu y ddiweddar Miss Jennie May Pritchard ddiolch i bawb am y caredigrwydd a'r cydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth.

PLAID CYMRU. Bydd Shandy Folk yn diddori yng Ngwesty Padarn Lake nos Sadwrn, 28 Mawrth. Pris



Cynrychiolydd o Fanc y Midland yn cyflwyno siec i'r Ysgol Feithrin.

MAE'R GWANWYN YN DOD!

I dorri'ch gwair yn fisol (a'i glirio) cysylltwch â:

WIL G. ROBERTS

Bod Gwilym, Cwm-y-glo

Ffôn: (01286) 870674

GWASANAETH PENIGAMP AM BRIS RHESYMBOL

'Un funud fach . . .'

Y TITANIC

Fuoch chi'n gwel Y FFILM? Bu'r tyrfaoedd yn heidio ers wythnosau i weld stori llong enwoca'r byd. Mae'r Titanic wedi codi i frig y siartiau ffilm, a chadarnhawyd hynny y noson o'r blaen pan ddyfarnwyd iddi un Oscar ar ddeg yn y seremoni dros ben llestraid flynyddol. Ac roedd cyfarwyddwr y ffilm wedi gwirioni cymaint nes iddo gyhoeddi mai fo y noson honno oedd 'brenin y byd'. Y creadur bach.

Wedi'r holl heip, gwneud ffilm wnaeth o. Ffilm dda; ffilm ddrud; ffilm boblogaidd; ffilm lwyddiannus; ffilm well nag y byddai'r rhelyw ohonom yn gallu breuddwydio ei gwneud. Ond ffilm wedi'r cyfan. Rai blynyddoedd yn ôl roedd yna sôn am godi'r Titanic o wely'r môr. Dyna fyddai camp. Ond hyd y gwn, mae'r syniad hwnnw wedi ei roi heibio erbyn hyn, a da hynny.

Ond fyddai codi'r Titanic o ddyfnderoedd y môr yn ddim o'i gymharu â'r hyn yr ydym yn ei gofio a'i ddathlu y Pasg hwn. Cododd Iesu o'i fedd yn fyw fore'r Pasg. Dyna gamp fawr Duw. Dyna allu Duw. Dyna'r sicrwydd iddo dalu ein dyled wrth gymryd cosb ein pechod ar Galfaria. Dyna brawf bod Duw yn drech nag angau a'r bedd. Dyna sy'n gwneud yr Iesu yn wir 'frenin y byd'. A dyna ryfeddod y Pasg.

JOHN PRITCHARD

mynediad fydd £5 sy'n cynnwys cawl a rôl.

YSGOL FEITHRIN. Cynhaliwyd parti pen-blwydd yr Ysgol Feithrin yn 25 oed ar Fawrth 3ydd. Roedd y plant i gyd wedi mwynhau eu hunain a daeth y mamau yno i helpu. Diolch o galon i Fanc y Midland am ei rodd o £50, a diolch i'r holl fusnesau lleol a gefnogodd yr Ysgol Feithrin unwaith yn rhagor.


BINGO. Cynhelir noson Bingo yng Ngwesty'r Dolbadarn am 7.30 o'r gloch, nos Wener, Ebrill 3ydd, i godi arian at Gymdeithas Clefyd y Motor Neurone. Dowch yn llw, bydd croeso cynnes yn eich aros.

EMYR JONES

PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

**44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon
673513**



**GWYNANT
PIERCE**

Cynrychion Coed:-
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol
Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

Newyddion o Ysgol Brynrefail

YR ADRAN SAESNEG

Brynhawn Iau, Chwefror 26, aeth tri deg chwech o ddisgyblion Ysgol Brynrefail i weld y ddrama *Abigail's Party* yn Theatr Clwyd, Yr Wyddgrug. Mae'r ddrama yn waith gosod ar gyfer TGAU mewn Llenyddiaeth Saesneg. Drama llawn hiwmor ydyw sy'n talu sylw manwl i ymddygiad, arferion ac agweddau y pedwar cymeriad. Perthyn iddi hefyd agweddau difrifol ac ar ddiwedd y ddrama mae un o'r cymeriadau, Laurence, a chwaraewyd yn gampus gan Llion Williams (Cym-on Mid-ffild), yn marw. Mwynhaodd y disgyblion, sy'n cael eu dysgu gan mrs Yvonne Roberts, y perfformiad yn arw a rhaid eu canmol am eu hymddygiad ardderchog. Gobeithir y bydd eu profiadau yn Theatr Clwyd yn fodd i godi eu marciau yn yr arholiad.

LLONGYFARCHIADAU

Pleser yw llongyfarch Delyth Medi Humphreys, prif ddisgybl yr ysgol, ar ei llwyddiant yn arholiadau Ysgoloriaethau Mynediad i Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth.

EISTEDDFODAU'R URDD. Bu disgyblion yr ysgol yn tu hwnt o brysur yn ystod yr wythnosau diwethaf yn paratoi ar gyfer eisteddfodau lleol yr Urdd. Braf oedd gweld bwrllwm y paratoi a'r cystadlu brwd, a bu'r ysgol o fewn un marc i ennill y darian. Cipiwyd y tlws gan Goleg Meirion-Dwyfor. Bydd y canlynol yn cynrychioli'r ysgol yn rhanbarthol ac yn genedlaethol — rhanbarth: parti cyflwyniad llafar dan 15; Lois

Enillodd Delyth wobr teilyngdod yn dilyn ei harholiadau mewn Cymraeg a Hanes ac mae wedi cael mynediad di-amod i'r brifysgol — sefyllfa y byddai pawb yn hoffi bod ynddi! Ond o adnabod Delyth bydd yn sicr o barhau i weithio er mwyn ennill graddau teilwng o'i gallu yn yr haf. Dymunwn pob llwyddiant iddi.

YMWELIAD Â LLYDAW

Bydd 37 o ddisgyblion rhwng 13 a 18oed yn aros yn Brest gyda theuluoedd Llydaweg am wythnos. Byddant yn cael cyfle i wneud gwahanol weithgareddau gan gynnwys *char a voile*, sef hwylio tywod a sglefrio. Wrth gwrs bydd cyfle iddynt wella'r *Parler Francais*.

CROESO I'R YSGOL

Bydd disgyblion Blwyddyn 6 ysgolion y dalgylch yn ymweld â'r ysgol yn ystod y cyfnod yma i gael rhagflas o fywyd ysgol uwchradd, fel paratoad ar gyfer mis Medi. Gobeithio y gwnant fwynhau eu hunain ac y byddant yn eiddgar i frysio'n ôl atom.

Williams ac Erin Eifion, unawd alaw werin; Ffion Williams a Manon Evans, ymgom; Iwan Williams, unawd pres dan 15; Sioned Jones a Kate Beard, deuawd cerdd dant dan 15; Geraldine Jones, adrodd i ddysgwyr; cenedlaethol: band jazz; parti llefaru hŷn; Jennie Lynne Morris, unawd pres dan 19; Bethan Fôn, unawd rhwng 15 a 19. Daeth amryw eraill yn hynod agos i gyrraedd y brifwyl ym Mhwlheli.



Sioned Jones a Kate Beard fu'n llwyddiannu ar y deuawd gerdd dant dan 15 oed.



DOSBARTH DI-FŴG. Rydym fel ysgol wedi cystadlu yn y fenter iechyd newydd — 'Cystadleuaeth y Dosbarth Di-fŵg'. Datblygwyd y gystadleuaeth gyda chefnogaeth ariannol y Comisiwn Ewropeaidd.

Mae'r dosbarthiadau sy'n cystadlu yn gaddo peidio ysmegu hyd ddiwedd y gystadleuaeth. Ar ôl 3, 4 a 5 mis gan y dosbarthiadau sydd yn y gystadleuaeth o hyd gellir ennill gwobrau ariannol i'r ysgol.

Dewiswyd dau ddosbarth i

gystadlu ac maent wedi arwyddo ar ddechrau pob mis ers y ddau fis diwethaf i beidio ac ysmegu.

Mae gwaith ymchwil ledled y byd yn dangos po hiraf y gellir atal person ifanc rhag arbrofi â thybaco, y mwyaf tebygol yw iddynt beidio a smygu.

Gobeithiwn, fel ysgol sy'n hybu iechyd da, bydd y dylanwad positif o ffrindiau dosbarth yn gweithredu fel grŵp i aros yn ddi-fŵg, fod yn fanteisiol i'r ysgol gyfan.



Bethan Fôn fydd yn cystadlu ar yr unawd rhwng 15 a 19 oedd; a Jennie Lynne Morris fydd yn cystadlu ar y unawd pres dan 19 oed.

Geraldine Jones —

llwyddiant ar adrodd i ddysgwyr.



Aelodau'r parti llefaru hŷn fydd yn cystadlu yn yr eisteddfod genedlaethol



Cefnogwch
ein
Hysbysebwyd

CYMDEITHAS Y DEILLION

Ar yr 2il o Fawrth cafodd ein dosbarth (8 O) ymweliad cyfeillgar gan Mr Ffranccon Roberts a ddaeth i siarad gyda ni am Gymdeithas y Deillion. Roedd Mr Ffranccon Roberts yn siarad am y deillion am lawer iawn o amser ac mae o wedi rhoi llawer o wybodaeth ac wedi rhoi ffeithiau nad oeddem yn eu gwybod o'r blaen. Cyn-brifathro yw Mr Ffranccon Roberts yn Y Rhyl ac felly yr oedd o'n gwybod sut i siarad ac egluro.

Rhoddwyd ni mewn 5 grŵp a rhoddodd dasgau dyddiol a wna'r dall bob dydd. Yn gyntaf roedd yn rhaid tywallt dŵr i gwpan a phan roedd y dŵr yn dod i'r pen roedd yna seinydd yn canu. Roeddwn i'n meddwl fod hyn yn ddyfais glyfar iawn. Yn ail, rhoddodd inni gêm o dominoes gyda cylchoedd bach arnynt yn sefyll allan i weld pa rif oedd arno. Doeddwn i ddim yn cael hwyl ar y gêm yna oherwydd roeddwn i'n colli bob tro! Ac hefyd, roedd yn anodd gyda'r mwgwd a wisgwn yn syrthio o hyd!

Wedyn roedd yn rhai i ni roi menynd ar fara; gwnes i hynny yn iawn. Wedyn roeddem yn gorfod mynd o amgylch y dosbarth gyda ffon wen. Doedd o ddim yn gweithio i mi oherwydd roeddwn i bob tro yn taro yn erbyn bwrdd neu gadair ond yr oedd y dasg yn ddoniol iawn. Yn olaf roeddem yn gorfod gweld faint o'r gloch oedd hi, roedd y rhifau wedi eu cerfio i mewn, wel, doedden nhw ddim yn rhifau i ddweud y gwir, dotiau oedden nhw.

Rydwi wedi dysgu llawer iawn o bethau yn sgil ymweliad Mr Ffranccon Roberts — yn un peth peidio gadael dyn/dynes ddall heb ddweud 'ta-ta' rhag ofn iddyn nhw feddwl eich bod chi'n dal yno a pharhau i siarad. Yr ail beth, doeddwn i ddim yn sylweddoli pa mo anodd y mae o go iawn.

Rydym ni'n gobeithio codi arian trwy wneud i bobl gerdded o amgylch yr ysgol ddwy waith yn gwisgo mwgwd. Byddai'r broses yma yn ddoniol ac i chi gael gweld pa mor anodd yw bod yn ddall go iawn.

DRAENOG



Chwi gofiwch i'r Aelod Seneddol ymweld a Llanberis yn ddiweddar i agoriad swyddogol 'Twill yn y Wal' (agoriad arall er mwyn i chi gael pres o'r banc). Roedd nifer o ddynion busnes lleol wedi cael gwahoddiad i'r seremoni ond ar ganol araith yr AS daeth sŵn 'blip-blip-blip' y ffôn o boced un o'r gynulleidfa. Pwy ond y dawnsyr Albanaidd enwog o Bontrug yn ffonio un o'i gydweithwyr i ofyn am gyfarwyddiadau ynglŷn â ble i fynd a'i JCB. Mae cyfreithwyr yr Eco wedi ein cynghori i beidio cynnwys sylwadau yr Aelod Seneddol rhag ofn iddynt sbarduno 'major diplomatic incident'. Ia wir yr, dyna'r union eiriau a ddefnyddiwyd — gan ein cyfreithwyr!



Tim yr ysgol — pencampwr Cymru gyfan yn y cwis pop.

RAM JAMIO. Llongyfarchiadau gwresog i ddisgyblion yr ysgol ar ennill cystadleuaeth Ram Jam, Radio Cymru. Tim yr ysgol yw pencampwr Cymru gyfan yn y cwis pop poblogaidd. O ganlyniad daeth Dafydd Du i'r ysgol i'w cyflwyno â

thlws a siec am £500, yn ogystal â chrysau-T, cryno-ddisgiau a chapiau. Aeth y grŵp ymlaen i recordio rhaglen radio arall trwy roi sialens i ysgolion Tryfan, Syr Hugh Owen a Dyffryn Ogwen yn y cwis newydd 'Paid â Bod Ofn'. Daeth yr

ysgol i'r brig unwaith eto ac ar Fawrth 31ain bydd y tim yn mynd i Aberystwyth i recordio'r rownd derfynol. Pob lwc a llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran.

Adfywio Bro Gwyrfai

Yn dilyn cyfarfod cyhoeddus byrlymus a gynhaliwyd ddiwedd Chwefror mae trigolion Waunfawr a Chaeathro yn dechrau ar y gwaith o lunio holiadur, fydd yn y pendraw yn casglu syniadau holl drigolion yr ardal. Trafodwyd nifer o syniadau gwreiddiol a diddorol a bu modd ffurfio tri grŵp o dan themâu yr amgylchedd, gwaith a busnes, a hamdden ac adnoddau cymunedol. Y cam nesaf fydd i'r

grwpiau yma gyfarfod a thrafod y math o gwestiynau ellid eu cynnwys yn yr holiadur gan ganolbwyntio ar eu themâu arbennig. Mae'n dod yn fwy amlwg mai'r gwaith anoddaf hyd yn hyn yw taro ar noson sydd yn rhydd gan bawb! Mae croeso i fwy ohonoch ymuno â'r grwpiau.

Cyfeirir nifer o ymholiadau gwahanol at Eirian Pierce Jones, Swyddog Adfywio Bro Gwyrfai, pob mis boed y rheini'n amgylcheddol, gymdeithasol neu

economaidd eu naws, felly, cofiwch gysylltu â hi am arweiniad. I'ch atgoffa o'r fro y mae Eirian yn ei gwasanaethu, dyma'r plwyfi Cyngor Cymuned sy'n cael eu cynnwys yng Ngwyrfai — Waunfawr, Betws Garmon, Bontnewydd, Llanddwrog a Llanwnda. Felly codwch y ffôn am sgwrs ar (01286) 650779 neu galwch i'w gweld yng Nghanolfan Gymunedol Waunfawr i fanteisio ar y gwasanaeth Adfywio Bro a sefydlwyd gan Gyngor Gwynedd gydag arian Ewropeaidd.

MANTEISIWCH AR EICH OED!

Dros 55?

Dewis o yswiriant yn rhoi gwerth eich arian.

Cartref a Chynnwys
Teithio • Car
Anifail Anwes
Gwasanaeth Torri Lawr

Age Concern (Wales)
Enterprises Limited
Ffordd Santes Helen
Caernarfon
Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

AGE
Concern

INSURANCE
SERVICES

All our profits
support the work
of Age Concern

DRAENOG



Doedd dim posib methu'r brotest cefn gwlad a gynhaliwyd yn Llundain beth amser yn ôl — do, fe fu criw o'r ardal hon yno'n dangos eu hochr. Chwarae teg iddyn nhw, yn sgwennu eu slogan yn Gymraeg ar faner fawr yn datgan cefnogaeth i fugeiliaid Eryri. Ffon wen oedd gan Geidwad y Faner yn ei dal ond bu'n rhaid rhoi'r holl faneri i ofal yr heddlu cyn cael mynediad i neuadd y siaradwyr. Erbyn i Fugail Eryri ddod allan o'r neuadd roedd gweddill ei garfan wedi diflannu — a'r faner i'w canlyn — gan adael y ffôn wen ar ôl. Rhag gadael unrhyw fath o sbwriel ar lawr ar balmetydd sanctaidd y brifddinas fawr aeth Bugail Eryri a'r ffôn wen efo fo. Pan arhosodd i geisio croesi ffordd brysur daeth Samariad Trugarog ato a chynnig cymorth i'r bugail 'dall' ar draws y ffordd!

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

Camera yng ngofal Valmai Williams, Hafle, 2 Rhes Faenol Ffôn: 871174



Badgers Urdd Sant Ioan, Deiniolen.

CYMDEITHAS ADNEWYDDU DEINIOLEN. Bydd cyfarfod nesaf y pwyllgor nos Fercher, 8 Ebrill am 7.00 o'r gloch yn yr Ysgol Feithrin. Croeso cynnes i unrhyw un sydd â diddordeb. Mae cofnodion y cyfarfodydd hyn i'w gweld yn Llyfrgell y pentref.

Y SEINDORF. Llongyfarchiadau unwaith eto i'r Seindorf ar ennill yr ail wobwr ym Mhencampwriaeth Rhanbarthol Cymru a gynhaliwyd yn Neuadd y Brangwyn, Abertawe, ddydd Sadwrn, 14 Mawrth. Yr oedd yna ddeg seindorf yn y gystadlaeth a dyma'r tro cyntaf i Seindorf Deiniolen gystadlu yn yr Ail Adran. Byddant yn mynd ymlaen i'r prawf terfynol a gynhelir yn

Harrogate, Swydd Efrog ar 20 Medi, a hynny am y pumed tro yn olynol. Pob lwc iddynt.

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant ym Mhencampwriaeth Unawdau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ym Mangor y mis diwethaf. Dan 10 oed: 1, Ynyr Bryn; dan 14 oed: 3, Arwel Williams a hefyd 3 Aire Varie; unawd ac Aire Varie 16-18 oed: 3, Jennie Lynne Morris; unawd agored: 2, Dylan Williams. Llongyfarchiadau hefyd i'r gweddill fu'n cystadlu ond heb fod yn llwyddiannus y tro yma. Daliwch ati.

PLAID CYMRU. Enillwyr Clwb Cant yn ddiweddar oedd — Ionawr, £10: Miss Margaret Jane Jones, Foel

Dinorwig; £5: Mrs Alice Griffith, Tan y Bwlch, Dinorwig. Mis Chwefror, £10: Y Cynghorydd Len Jones, 11 Hafod Olau; £5: Mr Ifan Wyn Williams, 12 Ffordd Deiniol. Mis Mawrth, £10: Mr T. A. Parry, Bro Dawel; £5: Mrs L. M. Lewis, Llys Annedd.

CYNGOR EGLWYSIG. Cynhaliwyd oedfa yng Nghefnywaun nos Lun, Mawrth 9, gyda'r Parchg John Treharne, gweinidog y Bedyddwyr ym Mhen-y-groes a Chaernarfon yn pregethu. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos lau, Ebrill 9, sef gwasanaeth Cymundeb ar gyfer nos lau Cablyd. **Y GYMDEITHAS LENYDDOL.** Cynhaliwyd cyfarfod Chwefror nos Lun, Chwefror 23, dan lywyddiaeth Mrs Margaret C. Griffith. Estynnwyd croeso cynnes i Mr Euros Jones, Bontnewydd a chafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddo am arfordir Ynys Môn. Dangosodd sleidiau trawiadol yn darlunio'r amrywiaeth eang o dirwedd a chyfoeth y bywyd gwyllt sydd i'w gael ar yr ynys.

MERCHED Y WAWR. Mwynhawyd cinio Gŵyl Ddewi yn y Legend, Penmaenmawr nos Wener, Chwefror 27. Cawsom noson ddifyr yn dathlu'r Ŵyl yng nghwmni'n gilydd a chafwyd cwmni rhai o'r tu allan i'r gangen hefyd. Y gŵr gwadd answyddogol oedd Mr Tydfil Jones, ond ni chafwyd anerchiad o fath yn y byd ganddo.

CEFNYWAUN AC EBENESER. Bydd yr oedfa fore a'r Ysgol Sul Undebol yn Ebeneser yn cael eu cynnal **am 10.00 o'r gloch** o hyn ymlaen. Penderfynwyd newid yr amser er mwyn hwyluso pethau i'r athrawon newydd sydd wedi eu cael i'r Ysgol Sul. Bydd amryw o'r mamau ifanc yn cymryd dosbarthiadau'r plant lleiaf yn eu tro, a diolchwn iddynt am eu parodwedd i ymgymryd â'r gwaith. Diolch hefyd i Mrs Jane Thorman Jones am ei gwaith fel athrawes yn yr Ysgol Sul dros y blynyddoedd diwethaf.

Cynhaliwyd cyfarfod chwioridd y ddwy eglwys yn Ebeneser, ddydd lau, Mawrth 12. Cymerwyd y rhannau defosiynol gan Mrs Margaret Jones a chafwyd astudiaeth Feiblaidd dan arweiniad y gweinidog.

Etholwyd Mr Ernest Jones yn Ysgrifennydd y Cyhoeddiadau yn Ebeneser i olynu Mr Donald Jones a fu wrth y gwaith ers dros 25 mlynedd. Diolch i Donald am ei waith caled drwy'r blynyddoedd yn sicrhau gwasanaeth pregethwyr y Sul, a diolch i Ernest am ei barodwedd i ymgyrmyd â'r gwaith.

Cronfa Ymddiriedolaeth Deiniolen

Fel y mae'n hysbys i nifer o'r pentrefwyr bydd ymddiriedolwyr y gronfa uchod yn cyfarfod yn achlysurol i ystyried ceisiadau gan fudiadau a chymdeithasau lleol am roddion ariannol o'r gronfa.

Eleni gwahoddir ceisiadau gan y cymdeithasau a'r mudiadau dan sylw **cyn hanner dydd, ddydd Mercher, Mai 27.**

Mae'n holl bwysig fod y ceisiadau am roddion yn cynnwys mantolen ariannol gyfredol, wedi ei harchwilio. Dylai'r fantolen nodi enw llawn a chyfeiriad a rhif ffôn y sawl sydd wedi ei harchwilio.

Dylid anfon ceisiadau at: Mr Gwyn Parri, Trysorydd, Cronfa Ymddiriedolaeth Deiniolen, Cynefin, Deiniolen, Gwynedd LL55 3LU.

DYDD GWEDDI. Cynhaliwyd Dydd Gweddi Chwioridd y Byd yn Ebeneser ddydd Gwener, Mawrth 6, gydag aelodau eglwysy'r pentref yn cymryd rhan.

DIOLCH. Hoffai Jane Jones ddiolch yn ddiffuant iawn i bawb am eu hymweliadau a'u caredigrwydd tra bu yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref. Diolch hefyd i staff wardiau Glyder, Hebog a Tudno, ac yn arbennig i staff Clinic Deiniolen a'i chymdogion yn Rhydfadog.

DIOLCH. Dymuna Ellis Wyn, 6 Ffordd Deiniol, ddiolch o galon i'w deulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau, anrhegion a'r arian a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn 70 oed yn ddiweddar. Diolch yn fawr i bawb.



Y Comisiynydd Mrs Gwenan Watkins yn cyflwyno Tlws i Sioned Jones am bresenoldeb llawn dros y flwyddyn ddiwethaf yn y dosbarth Cymorth Cyntaf.

Trin Traed Gwartheg



'Crush' pwrpasol gan W.O.P.A.

Ar gyfer buwch neu darw

Hefyd:

Ymgymmerir â shafio gwartheg tew

Dylan Roberts

Penllech Bach, Tudweiliog, Pwllheli

(01758) 770279 : symudol 0421 956143

**OSMOND SHAW
DEINIOLEN**



GWERTHU
- TRWSIO

★ Teledu ★ Fideo
★ Offer Trydan

Gwasanaeth Ffôn 24awr
(01286) 870545

Fframia

GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth

Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW

KEITH BOWEN :: ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

I drin a thrwsio
pob math o

beriannau gwnïo

MENAI SEWING

MACHINE CENTRE

40 Stryd Fawr

PORTHAETHWY

Ffôn: (01248)

714043 neu

(01286) 674520

Edau, Nodwyddau

ac ati mewn stoc

GALLT CHWAREL VIVIAN

Beth sy'n digwydd yn Amgueddfa Lechi Cymru ac yn Y Gilfach Ddu ar hyn o bryd? Un ateb ydi ein bod wrthi'n brysur yn gwario yr arian a gawsom o Gronfa Loteri'r Treftadaeth ddechrau y llynedd, sef £1.6 miliwn er mwyn gwella'r modd y byddwn yn cyflwyno hanes y diwydiant llechi. Ond, mewn gwirionedd, mae nifer o elfennau ynghlwm â'r gwaith ac, yn ystod y misoedd nesaf, rwyf am geisio ysgrifennu ambell bwt fydd yn egluro yr hyn sy'n digwydd gan osod ychydig o gefndir.

Yr elfen mwyaf gweladwy ar hyn o bryd yw'r gwaith o adfer un o'r gelltydd (inclên, medd rhai) ger Chwarel y Vivian i'w chyflwr wreiddiol. Pam dewis adfer gallt? Wel, er mwyn deall sut y bu i'r diwydiant lechi dyfu ac ehangu mae'n rhaid sylweddoli fod y peirianwyr neu'r datblygwyr cynnar wedi gorfod wynebu'r dasg o godi neu ollwng llwythi trymion ar lechwedd. Yn ystod y blynyddoedd cynharaf defnyddid basgedi gwail wedi eu rhwymo ar gefnau ceffylau er mwyn cludo'r llwythi i lawr tua'r arfordir. Bu'n arferiad hefyd i ddefnyddio ceir llusg mewn nifer o chwareli. Ond dulliau trafferthus, anhwylyd oedd rhain ac wedi i'r diwydiant llechi ddatblygu'n gyflym o'r 1830au ymlaen, bu'n rhaid datblygu dulliau mwy hwylus a fyddai'n galluogi perchnogion y chwareli i gludo mwy o lechi, a hynny'n fwy diogel ac yn rhatach, i lawr y llechweddau a thua'r arfordir.

Dyna paham y datblygwyd y gelltydd ym mhob un o chwareli llechi Cymru; a dyna paham y mae chwarel enfawr fel Dinorwig efo cyfresi ohonynt, yn ymestyn i'r ponciau uchaf un. Dywed llawer o drigolion Llanberis a'r

cylch wrthyf eu bod yn dal i gofio dwnidr nodweddiadol y gelltydd ac mae eu holion yn parhau'n amlwg iawn. Yn wir, mae gelltydd A1 ac A1 o'r Gilfach Ddu i gyfeiriad baricsod y Dre Newydd wedi eu rhestru a'u diogelu gan CADW.

Egwyddor syml iawn sydd i'r cyfan ohonynt. Mae pwysau'r llwyth o lechi sy'n gostwng ar un ffordd haearn yn cael ei drosglwyddo trwy gyfrwng rhaff wifren sydd wedi'i lapio o amgylch y drym ar ben yr allt. Oddi yno mae pen arall y rhaff wifren yn arwain i lawr at y llwyth arall (wagenni gweigion fel arfer) sydd i'w codi i ben uchaf yr allt ar ffordd haearn gyfochrog. Wrth i'r llwyth trymaf ostwng mae'r llwyth ysgafnaf yn codi, dan ofal y braciwr. Egwyddor syml ond holl bwysig yn natblygiad y diwydiant llechi.

Yn rhyfeddol, 'does yna 'run chwarel yng Nghymru bellach sy'n defnyddio gelltydd yn rheolaidd. Y sylweddoliad yma a'n arweiniodd ni i gynnig gerbron Cronfa'r Loteri Treftadaeth wedi i ni wneud ein hymchwil ac wedi trafodaeth efo CADW a Chyngor Gwynedd, y

gellid adfer gallt Vivian (V2), sef yr ail o'r gelltydd yn y gyfresi a fu'n gwasanaethu Chwarel Vivian, un o'r chwareli llai ar gyrion Chwarel Dinorwig. Inclên 'fwrdd' ydi hon — mae 'byrddau' gwastad yn teithio i fyny ac i lawr ar y ddau ffordd haearn gyda'r wagenni llwythog a gweigion wedi eu gosod arnynt. Bu'r allt yn gweithio ers tua 1860au hyd at y 1930au, yn ôl y dystiolaeth llafar a gasglwyd gennym.

Wedi darfod y gwaith gofalu o'i hadfer, sy'n cael ei wneud gan gwmni lleol gyda chaniatâd arbennig CADW, hon fydd yr unig allt o'i bath yng ngwledydd

Prydain. Bwriadwn ei harddangos yn gweithio ar adegau rheolaidd yn ystod y dydd gan ei defnyddio mewn dull sydd yn agos at y gwreiddiol, ond gan gynnwys hefyd holl gyfarpar diogelwch cyfoes. Nid yw'n bosibl i ni gludo pobl arni gan y byddai hynny'n gweddnewid ei chymeriad yn llwyr — ac yn difetha ei chymeriad unigryw.

Dylai'r cyfan fod wedi'i orffen erbyn tua canol Mehefin eleni. Yn y cyfamser beth am ddod am dro i weld y gwaith adfer? 'Does dim byd fel hyn wedi digwydd yn y Gilfach Ddu ers degau o flynyddoedd.

Dathlu Gŵyl Ddewi yng Nghaerlŷr

Derbyniwyd yr adroddiad canlynol am ginio Gŵyl Ddewi Cymdeithas Cymry Caerlŷr (Leicester) oddi wrth lywydd y Gymdeithas, Mr Ronnie Williams. Ganwyd Mr Williams ym Mhenisarlawn. Symudodd ei rieni, Mr a Mrs Evan Williams, i fyw yn ddiweddarach i Ddeiniolen. Lladdwyd ei dad yn yr Eidal yn yr Ail Ryfel Byd ac aeth ei fam i fyw i Benbedw (Birkenhead). Ond arhosodd Ronnie yn Neiniolen a chael ei fagu gan ei nain a'i daid, Mr a Mrs Ned (Batri) Williams, 50 Pentre Helen.

Cynhaliwyd y Cinio nos Sadwrn, Mawrth 28 mewn gwesty yn Oadby. Roedd 66 yno, a 40 ohonynt gyda chysylltiad â Chymru. Y gŵr gwadd oedd yr Athro Tudor B. Jones, Pennaeth Adran Ffiseg a Seryddiaeth ym Mhrifysgol Caerlŷr. Yn wreiddiol o Ystradgynlais mae'r Athro Jones wedi bod yn aelod o staff y Brifysgol ers 1960 pan symudodd yno o swydd yng Ngholeg Prifysgol Cymru yn Aberystwyth. Mae'n Gymro Cymraeg sydd yn adnabyddus trwy'r byd am ei waith ymchwil.

Dywedodd Ronnie Williams wrth y cwmni ei fod yn gweld mai ei waith ef fel llywydd yw cadw traddodiadau'r Gymdeithas gan geisio sicrhau ei bod yn mynd o nerth i

nerth. Nid yw hynny yn hawdd ac nid gwaith un dyn mohoni, ond gwaith holl aelodau'r Gymdeithas. Diolchodd am y cymorth hael a gaiff gan lawer o'r aelodau a chan swyddogion pwyllgor y Gymdeithas. Wedi'r wledd cafwyd datganiad ar y delyn gan Miss Karen Jones.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf bu'r Gymdeithas yn cydweithio â chymdeithasau Cymreig eraill yn Derby, Nottingham a Loughborough, a chafwyd amser da yn y Gymanfa a'r Noson Lawen. Mwynhawyd y daith flynyddol i'r Gymanfa Ganu yng Nghapel Cymraeg Birmingham hefyd. Roedd llawer o waith caled wedi'i wneud gan aelodau a phwyllgor y Gymdeithas er sicrhau llwyddiant y noson a'r flwyddyn. Cafodd y Gymdeithas golled fawr ym marwolaeth un a fu'n llywydd dros nifer o flynyddoedd, Mr Herber Morris. Bu'n gawr y Gymdeithas ac mae colled fawr ar ei ôl.

Mae Cymdeithas Cymry Caerlŷr, a ffurfiwyd 89 mlynedd yn ôl, yn ymhyfrydu yn y ffaith bod llawer o'i haelodau dros y blynyddoedd wedi chwarae rhan amlwg ym mywyd y ddinas mewn mesydd gwleidyddiaeth, addysg, iechyd a busnes.

Am ragor o fanylion am y Gymdeithas cysylltwch â Ronnie Williams, 9 Middlesex Road, Aylestone, Leicester LE2 8HN. Ffôn: 0116 283 2510.

Bistro LLANBERIS

Ffôn: 871278


PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS

LLE DA I WLEDDA

Beth am Fwffe Enwog Nerys (rhwng 20 - 70) i ddathlu pen-blwydd neu ben-blwydd priodas.

Partïon rhwng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion.

Cofiwch am nosweithiau arbennig y Bistro nos Wener olaf bob mis



Llun trwy garedigwydd Archifdy Gwynedd.

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

UNDEB Y MAMAU. Nos Fawrth, Mawrth 10, daeth cangen Llanberis i ymuno â ni. Gweinyddwyd y Cymun Bendigaid gan y Parchg Philip Hughes yn Eglwys Sant Gabriel. Yn ystod y gwasanaeth derbyniwyd aelod newydd i gangen Cwm-y-glo, sef Miss Meira Williams.

Ar ôl y gwasanaeth cafwyd lluniaeth wedi ei baratoi gan aelodau Cwm-y-glo yn yr Ysgol Gymuned. Diolchwyd i'r gwesteion gan mrs Nan Owen. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Dorothy Jones ac fe'i henillwyd gan Mrs Marjorie Roberts. Bydd y cyfarfod nesaf nos lau, Ebrill 9, yn Hafan Elan, Llanrug.



Peter, Lauren, Jodi ac Elin a fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod Cylch.

NEWYDDION O'R YSGOL. Dathlwyd Gŵyl Ddewi yn yr ysgol gyda gwasanaeth gan blant Bl. 1 a 2 a chyngerdd o eitemau gan aelodau'r Urdd.

Yn Eisteddfod yr Urdd, Cylch Arfon, daeth Elin Morris yn ail am lefaru dan 8 oed a Peter Thornton, Lauren Jordan a Jodie Cummins yn gyntaf, ail a thrydydd am lefaru i ddysgwyr dan 8 oed. Daeth parti Kate yn drydydd am ddawnsio gwerin dan 10 oed; parti Clair yn drydydd yn y partïon unsain. Ail oedd côr Ceri Angharad i ysgolion o dan 100 o blant. Pob hwyl rŵan i Elin, Peter a Lauren yn Eisteddfod Sir Eryri ddiwedd y mis.

Carwn ddiolch o galon i Mrs Lowri

Roberts Williams am ei chymorth parod yn cyfeilio i'r parti a'r côr.

Cawsom ginio arbennig o gig oen i ddathlu Gŵyl Ddewi gan Mrs Orritt. Mae Gwasanaethau Masnachol Gwynedd yn cynnal cystadleuaeth i hyrwyddo gwerthiant cinio ysgol. Gwahoddwyd ysgolion i anfon enw ar gyfer y Ddraig ar eu poster. Ceri Bryn Morris oedd enillydd yr ysgol hon gyda'i dewis o'r enw 'Drago'.

Llongyfarchiadau i Mrs Nancy Jones, Llanberis a Mr Gwilym Williams, Cwm-y-glo am ennill gwobrau Clwb yr Ysgol am fis Chwefror.

Cafodd plant Bl. 6 wahoddiad i dreulio diwrnod yn Ysgol Brynrefail yng nghwmni Bl. 7. Diolch yn fawr i Mr Eifion Jones am y croeso ac i Mrs Sharon Griffith a Mrs Cathryn Tyrrell am drefnu'r ymweliad.

Llongyfarchiadau i Paul Fleetwood, Bl. 5, ar ennill cystadleuaeth arlunio a gynhaliwyd yn Siop Petesart, Bangor. Mae gan Paul ddeg punt rŵan i'w gwario yn y siop.

Rydym wedi casglu bron i 3,000 o dalebau Siop Co-op ar gyfer offer chwaraeon. Diolch i bawb a anfonodd rhain i'r ysgol. Mae ymgyrch Tesco ar gyfer rhaglenni cyfrifiadurol yn dal i fynd rhagddi a byddwn yn falch eto o dderbyn y talebau hynny hefyd.

YR URDD. Cawsom gyfarfod difyr iawn yng nghwmni Mrs Kath Green a'i merch Anita. Bu'r plant yn brysur yn paratoi anrheg Gŵyl Ddewi. Am ymdrechion arbennig dyfarnwyd y gwobrau i Ceri Ann Jones, Maria Lockett a Sarah Perrin.

Mewn cyfarfod arall, mwynhaodd y plant gemau â rhifau ar ffurf tombola. Susie, Ceri, Clair a Katrina oedd yn gofalu am y lluniaeth.

**Cymdeithas Rhieni ac Athrawon
Ysgol Gymuned Cwm-y-glo
FFAIR WANWYN
YN YR YSGOL GYMUNED
NOS FERCHER, 1 EBRILL
6.30 - 8.30 y.h.**

STONDINAU :: GEMAU I'R PLANT
PEINTIO WYNEBAU :: CŴN POETH
RAFFLAU

DEWCH YN LLU I GEFNOGI'R NOSON

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon
Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes
Argoed. Ffôn: (01286) 650556

ADREF O'R YSBYTY. Croesawn Mr Eric Jones, Stad Tref Eilian; Mr Paul Evans, Stad Tŷ Hen; Mrs Jane Roberts, Glaslyn, 24 Bro Waun; ac Angharad, merch fach Bryn a Carmen, Bryn Gwyn, gartref o'r ysbyty gan ddymuno iachad buan iddynt.

CYDYMDEIMLO. Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mrs Catherine Jones, Bryn Derwen. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i Eryl a Margaret yn eu profedigaeth o golli mam.

Cydymdeimlwn hefyd â Christine Davies, Hafan yn ei phrofedigaeth o golli ei mam, Mrs Lloyd, Bryn Awelon.

DAMWAIN. Anfonwn ein cofion, gan obeithio ei bod yn gwella i Anest Bryn, Perthi sydd wedi torri ei braich mewn damwain.

DYWEDDAD. Llongyfarchiadau i Gwennan, Glyn Ceris ar ei dywedd i Geraint o Benygroes. EISTEDDFODOL. Llongyfarchiadau i Gôr y Waun ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Carmel; ac i Myra Turner, Alun ac Wmffra sy'n cystadlu ac yn llwyddo'n aml yn eisteddfodau'r fro. DATHLU PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Valerie Roberts, 10 Bryn Golau ar gyrraedd ei phen-blwydd yn ddeunaw oed.



Emyr Evans yn derbyn Tarian Goffa T. A. Thomas gan Annie Thomas.

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen
Bodafon. Ffôn: (01286) 650799

BRYISIA WELLA DEN. Anfonwn ein cofion at Den o Rhos y Grug sydd wedi cael anaf i'w goes yn ddiweddar. Bryisia wella yr 'hen goes'!

ARDDANGOSFA. Gellir gweld gwaith Siân Jones, Rhos y Grug, sy'n dilyn cwrs arlunio yng Ngholeg Menai, yn yr arddangosfa yn Theatr Gwynedd. Ewch draw yno am dro. CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad i Susan Williams a'r teulu, Pant Hyfryd ar golli nain, Myfanwy Roberts, Nefyn yn ddiweddar.

BETWS GARMON

CYDYMDEIMLO. Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs Pearl Williams, Parc yn ei phrofedigaeth o golli ei mam.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion at Mrs L. Pritchard, Bro Waun; Mrs Parry, Bro Waun; Mrs Helen Jones, Tref Eilian; a Mr Morris Lewis sydd yn yr ysbyty ym Mangor.

CLWB BOWLIO. Aeth aelodau'r Clwb Bowlio i Tŷ Stesion i fwynhau bwffe nos Wener, Chwefror 27. Yn ystod y noson cyflwynodd Mrs Annie Thomas y darian er cof am T. A. Thomas i Emyr Evans yr enillydd y flwyddyn yma. Yn ail roedd Elyn Griffith.

Daeth y tîm yn gyntaf yng Nghynghrair Gwynedd y tymor diwethaf ac maent yn mynd i Lanelwedd ar 4 Ebrill i gystadlu am Gwan Mat Byr Cymru. Byddant yn cystadlu yn erbyn wyth o dimau o siroedd eraill Cymru. Pob lwc i'r tîm. Bydd bws yn gadael y pentref am 6.30 y bore i Lanelwedd ac os oes rhywun yn dymuno dod i gefnogi'r tîm mae croeso i chwi ddod. Am fwy o fanylion cysylltwch â Carys Jones, 12 Tref Eilian, neu Catherine Jones, Bryn Gwenallt (650242).

ENILLWYR CLWB 300 mis Chwefror — £40: Mrs Beryl Jones, Dôl y Coed; £25: Mr I. Huws Roberts, Bodrida; £10: Mrs Iona Williams, Llwydiarth.



Tim Bowlio Waunfawr.

R. M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846

AM OFFER Tŷ A GARDD . . .

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872501

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263



Plant blynyddoedd 3 a 4 yr Ysgol Gymuned a fu'n dawnsio yn Theatr Gwynedd.

YR YSGOL GYMUNED. Fel rhan o themâu'r dosbarth bu Blwyddyn 5 a 6 ar drip i Moelfre ac yna i Oriol Môn. Bu dosbarthiadau CA1 ar daith gerdded o amgylch y pentref yn arsylwi ar fyd natur.

Roedd dosbarth Bl. 3 a 4 yn perfformio mewn Noswaith o Ddawns yn Theatr Gwynedd. Teitl eu dawns oedd 'Y Chwarel'.

Y mis hwn mae logo newydd yr ysgol yn cael ei lansio. Bydd cynllun buddugol Jason Snowden, a addaswyd gan Islwyn Williams, i'w weld ar grysau-chwys, crysau polo



Jason, a fu'n fuddugol ar lunio logo newydd yr Ysgol Gymuned — mae'r logo newydd i'w weld wedi'i argraffu ar ei grys.

a llythyrau'r ysgol o hyn ymlaen. Llongyfarchiadau i Jason.

YR URDD. Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Cylch yr Urdd — unawd alaw werin 12-15 oed: Erin Eifion (2); parti dawnsio gwerin dan 12 oed: parti Melanie (2), parti Manon (3); unawd piano dan 12 oed: Mathew Phillips (2); parti canu dan 12 oed i adrannau: parti Haydn (2), parti Bedwyr (3); côr adran dan 12 oed: Côr Sara (3).

Clod hefyd i'r unigolion, y parti llefaru a'r ddau barti cerdd dant am eu gwaith graenus. Mae'r pwyllgor yn hynod ddiolchgar i'r rhai fu'n hyfforddi y partïon, sef Ann Ifans, Einir Griffiths, Judith Harding ac Annette Bryn Parri. Gwerthfawrogir cefnogaeth y rheini a'u cydweithrediad gyda'r ymarferion. LLWYDDIANT. Llongyfarchiadau i Lois Angharad, Gwyddfor ar ddod yn gyntaf am lefaru i'r rhai dan 8 oed yn Eisteddfod yr Urdd. Llongyfarchiadau hefyd i Mari Deiniol, Bryn Eglwys ar ddod yn gyntaf am lefaru i'r rhai o 8-12 oed. Pob dymuniad da i'r ddwy ohonoch yn yr Eisteddfod Sir ar Fawrth 28ain yn Neuadd J.P., Bangor.

DYMUNIADAU DA. Llongyfarchiadau gwresog i Mike a Dot Lamb, Bryn Eglwys ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf. Ganwyd mab bychan i Glenn a'i wraig, sy'n byw ym Mrynrefail. Pob hapusrwydd i chwi fel teulu.

Ein dymuniadau gorau i Llŷr a'i ddyweddi ar achlysur eu dyweddiad

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

COFION. Anfonwn ein cofion at Mr Wilbert Williams, Marino sydd yn Ysbyty Gwynedd yn dilyn triniaeth a gafodd yn gynharach yn Ysbyty Manceinion; a Mrs Betty Owen, Tros yr Afon sydd wedi bod am gyfnod o archwiliad yn Ysbyty Gwynedd. Gobeithio bydd y ddau ohonoch yn cael adferiad llwyr ac y byddwch gartref yn fuan iawn.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Bu'r gangen leol yn dathlu Gŵyl Ddewi gyda chinio ym Mwyty Courtney's yng Nghaernarfon. Treuliwyd noswaith bleserus a chartrefol a mwynhaodd pawb y pryd bwyd yn fawr iawn. Roedd yn ofidus nad oedd y llywydd, Mrs Pat Jones, yn gallu bod yn bresennol oherwydd anhwylder yn Mrs Betty Owen a oedd wedi ei chipio i'r ysbyty. Anfonwyd cofion atynt ac at Mrs Blodwen Hughes oedd yn disgwyl triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Diolch i Gwenllian Edwards am drefniadau'r noson. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Ebrill 20fed pryd y disgwylir Mr John Meirion Morris i roi sgwrs.

PROFEDIGAETHAU. Estynnir cydymdeimlad â Mrs Lowri P. Roberts Williams, Godre'r Coed yn ei phrofedigaeth o golli ei modryb, y ddiweddar Mrs Maggie Lloyd Jones, Caernarfon (gynt o Fryn Madog a Phenybryn, Fachwen) ar Fawrth 9fed yn 90 mlwydd oed. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Seilo, Caernarfon a chladdwyd ei

gweddillion ym mynwent Macpela, Deiniolen.

Yr un modd mae ein cydymdeimlad yn ddwys â Mrs Dilys Jones, Cytir yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd yng nghyfraith, y diweddar mr Elwyn Jones, Caernarfon yn 81 mlwydd oed. Yn frodor o Ddyffryn Conwy yn wreiddiol, yma ym Mrynrefail y treuliodd y rhan helaethaf o'i oes a hynny hyd yn ddiweddar iawn yn 1 Trem Eilian, cyn symud at ei ferch, Ann, i Gaernarfon. Bu'r angladd yng Nghapel Brynrefail, ddydd Iau, Mawrth 19eg ac yn dilyn ym mynwent Macpela, Deiniolen. Roedd y ddau wasanaeth angladdol dan ofal y Parchedig Harri Parri, Caernarfon. EGLWYS M.C. BRYNREFAIL. Bydd trefn yr oedfaon fel a ganlyn yn ystod mis Ebrill:

- 5: Mrs G. Alwena Williams, Llanddona (5.30)
- 12: Ymuno â'r gynulleidfa yng Nghyfarfod Pregethu Cefnywaun (5.30)
- 19: Parchg D. Elwyn Edwards, Caernarfon (5.30)
- 26: Parchg Oswyn Rees, Bangor (10.00)
- 26: Ymarfer ar gyfer Cymanfa Dosbarth Padarn yng Nghapel Brynrefail am 6.45 p.m.

Cynhelir cyfarfod cyntaf tymor 1998 o Gymdeithas Chwiorydd yr Eglwys yn y Ffestri, nos Iau, Ebrill 2il yng nghwmni y Parchg Iorwerth Jones Owen, Caernarfon.

yn ddiweddar. Pob dymuniad da i'r ddau ohonoch.

GWELLHAD. Pob dymuniad da am adferiad iechyd buan i'r rhai ohonoch sy'n sâl yn y pentref. Gobeithio fod Mr Ken Mowll a'i fab Glyn Mowll yn gwella wedi'u triniaethau yn yr ysbyty yn ddiweddar.

GAIR O DDIOLCH. Dymuna leuan Williams, Glyn Euron, ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd tuag ato, am yr anrhegion, cardiau a'r holl alwadau ffôn a dderbyniodd yn ystod ei arhosiad yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Diolch hefyd i staff Wardiau Glyder a Hebog a'r Paramedics am eu gofal arbennig. Diolch yn fawr iawn.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant mis Mawrth a'r enillwyr lwcus oedd: 1, Nanw Roberts,

Llanddeiniolen; 2, Sally Griffith, 16 Bryntirion; 3, Carys Williams, Meini Gleision, Brynrefail.

Cynhelir noson o weithgareddau'r Pasg, nos Iau, Ebrill 2il am 6.30 p.m. yn y Neuadd Gymuned. Bydd stondinau, tombola, raffla a phaned o de. Bydd cystadlaethau o oed meithrin i'r Uwchradd: 1, cerdyn Pasg; 2, addurno het; 3, gardd fasedg; 4, llun; 5, addurno wy; 6, addurno teisen. Pris mynediad fydd 20c i blant a 50c i oedolion. Felly dowch yn llw.

Gobeithri trefnu Taith Gerdded Noddedig, nos Wener, Mehefin 12fed i gychwyn o'r Ysgol Gymuned. Dowch i gerdded y llwybrau gyda Leslie Larsen. Bydd paned yn ein disgwyl yn y Neuadd wedi'r cerdded pleserus.



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI

CELTIC WINDOWS

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris

(01286) 678618 (dydd)

(01248) 670081 (nos)



Uned 5, Griffiths Crossing
Llanfair-is-Gaer, Caernarfon



Sefydlwyd
1980



Royal Victoria Hotel



LLANBERIS



Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau,
Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

Ffôn: (01286) 870253

CYNEFIN

gan Y GWALCH

Ni fûm yn hynafiaethwr fel y cyfryw, hynny ydi ar wahân i brofi ffeithiau ar gyfer cofiannau a gweithiau o'r fath, ond o hil gerdd, ac wrth sylwi a gwrando mae gennyf wybodaeth fras am fy narn tir fy hun; dyweder o Ddinas Dinorwig, hen gaer yr Oes Haear i Foel y Rhiwen i lawr lôn Bangor i groeslon Tŷ Mawr.

Roedd yna ffordd bridd — a ddifrodwyd rwy'n sylwi — yn rhedeg i lawr o lôn Pen Caeau i gors Cae Hob lle yr oedd 'manholes' mawr wedi'u selio â llechi trymion, fel cerrig beddau, i ganiatáu i'r peipiau tanddaearol a oedd yn cario dŵr afon Cegin i'r Faenol gael eu harchwilio yn gyfnodol. Y tu hwnt mae safle Ffynnon Cegin Arthur sydd yn awr wedi'i thraflyncu gan y goedwig bin.

Daeth cyfaill yma ers dim llawer i ddweud ei fod wedi darganfod plisgen yr hen ffynnon ac aeth â mi yno i'w gweld. Yn gofochrog yn y weirglodd roedd yna hen feini derwyddol, a ddefnyddiem i ddal ebolion. Rheiny hefyd wedi diflannu o dan oruchwyliaeth yr oes amaethyddol lwyddiannus gyfoes.

Ymhellach ymlaen mae Parc Nant Efa, eto o dan y coed. Syndod ei fod yn rhan o'r fferm honno mor bell oddi cartref. Gyda'i ymyl roedd gweddill coedlan o 'Scotch firs' a alwem ni y Cyfar Main. Roedd rhain yn eu tro yn cysgodi llannerch o figwyn ar ba un y tyfai llygad aeron ym mis Awst.

Ym mhen y llwybr sy'n cysylltu'r fan honno â'r un sydd yn rhedeg o Flaen y Cae i lôn Deiniolen mae'r Fron Chwith lle y cafodd Catherine Roberts y feistres ei llofruddio yng nghanol yr hen ganrif, gan ddyn â chryman. Amheuthun meddwl fod eiddo o'r fath fesur yr adeg honno, yn cynnal dau was a thair morwyn yn ôl yr adroddiadau. Mae gwyddfan y ferch anffodus ar ymyl y rhodfa ym mynwent Llanddeiniolen ger y lliidiart, ac ar gaead trwchus y gist mae'r englyn:

*Nid pennyd clefyd a'm cloes — nid ingawl
Nod angau dolroes,
Na henaunt aeth a'm heimoies,
Dyn â fu yn dwyn fy oes.*

O'r Fron Chwith a thu hwnt i lawr at ymylan y Rhydau, roedd yna ddarnau o lôn gul wedi ei thagu mewn mannau â mieri a chyll; hoff grychfan cariadon. Lôn Clechyd fyddai fy nhad yn ei galw. ni wn p'r un ai enw priodol ai ansoddair oedd y sylw hwnnw. Ar hyd hon

cerddai dynion Sir Fôn i'r chwarel oddi wrth y cwch ar foreau Llun yn eu trowsusau calico gwyn gan gario cnyswd wythnos yn eu sgrepennau i oroesi yn y baricsod chweinllyd rheiny. Rwy'n credu mai'r ffordd honno y deuai llechi i lawr ar hyd ffordd haearn yn cael eu tynnu ar wagenni gan geffylau.

Roedd darn o'r lôn bach yma yn mynd heibio i furddun Tŷ Hen a oedd ar ochr y llwybr sy'n arwain o'r Waen Winau i'r lôn bost, a'i dalcen at ffrwd frithyllog a fyddai byth yn treio ar y tymhorau sychaf am fod dŵr codi ar ei llwybr. Llifa i ymuno â'r afon Cegin cyn i honno redeg o dan y bont i'r pwl hwnnw ger Braich-yr-Iffri lle boddodd Dafydd Ddu Eryri rhyw noson ar ei ffordd feddw o Fangor i Lanrug, ac ar fin yr hwn y byddai y diweddar Griffith Jones, Blaen-y-Waen yn golchi ei gerbyd ar ddiwrnod braf mewn safle delfrydol.

Ar gwr gweriglodd lafrwynog Tŷ Hen lle byddai'r cornchwilog yn nythu, roedd llain bychan ar ogwydd a alwem yn 'glwt casag a chyw'. Ynddo byddai'r cesyg a'u cywion yn cael eu hymneilltuo ddechrau'r haf, oddi wrth yr anifeiliaid eraill i gael llonydd i fagu. Ar ei lawr yr oedd gwrymiau ar draws dwylath o led, ac yn haul isel y wawr a'r dywedydd, yr oeddent yn amlwg eu safdir. 'Cefnau Gwenith' oeddent, meddai'r hynafgwr, er oes y degwm. Roedd ein ffynnon ar gwr y llain hwnnw, wedi ei hadeiladu o lechi wedi eu suddo yn ddwfn i fryncyn a gofer isel iddi, ac uwch ei phen roedd draenen wen wedi'i phlanu yno yn bwrpasol i gadw tes yr haul oddi ar y dŵr. Roedd y cyndeidiau, a'r mamau hefyd (rhag rhyfygu tarfu awdurdorau'r cydraddoldeb) yn cydweithio gydag anian a'r elfennau ac nid yn ymladd brwydrau colledig yn eu herbyn.

Rhwng y fan honno a therfyn Cae Hob roedd corsdir eang wedi ei orchuddio â chwrlid a arogleuai fel saets yn y gwanwyn. Yno hefyd yr oedd y tyllau mawn; tystiolaeth blaen fod yr oesoedd cynt wedi bod yn cloddio yn helaeth am danwydd. Yn ô W. J. Gruffydd cludid y mawn a'r cwrlid i'w gwerthu ar y 'Turf Square' yng Nghaernarfon hefo merlod pwn. Roedden nhw'n hunan-gynhaliol yr un fath ag yr oeddenn ninnau yn cael ein gorfodi i fod ar y gwaendir yna.

Doedd angen fawr arnom mewn mater o fwyd heblaw gofalu am galan o halen a sachaid o flawd o'r felin a siwgr cyn yr hirlwm a'r lluwch, a rhyw ddrynaid o gyrants weithiau i wneud teisen yn y popty poethwal ar ddydd Sul. Ond roedd hi'n gyfnod digon brwnt yn gorfforol; y pwysau i gyd ar yr ysgwyddau. Ar yr ymennydd mae hwnnw heddiw — gwaeth fyth.

Byddai'r tyllau mawn yn llawn o ddŵr ar ôl y stormydd ac arnynt trigai'r hwyaid gwylltion. Nythent ar yr ynysoedd bychain a gellid cael at yr wyau weithiau os nad oedd y cŵn dŵr wedi achub blaen. Yn y gaeafau gerwin byddai'r pyllau yn rhewi'n gorn, a deuai hogiau'r pentre yno i sgelfrio yn y lloergan ac i wreithio.

Ar derfyn y corysdd roedd lôn bach y Rhydau i'r lle deuai'r sipsiwn yn flynyddol tros Ffair y Borth. Roedd yn lle delfrydol iddynt dario wrth yr afon gyda chysgod y coed lle roedd digon o fywyd gwyllt i'w cynnal. Yn y coed yma byddai'r cipar yn magu ffesants. Byddai yn galw yn y ffermydd i brynu ieir gori am hanner coron i eistedd ar yr wyau. Tymor y Nadolig deuai wedyn â pholyn ar ei ysgwydd ac adar yn crogi arno; ceiliog a dwy iâr ar gyfer pawb. Yr adeg honno yr oedd yn cael ei hanner coron yn ei ôl gyda dymuniadau gorau, er ei fod o dan gabal barhaus am fagu y fath bethau dinistriol i gnydau.

Ar ochr y ffordd bost lle roedd honno yn forchi am y Rhiwlas yr oedd Efail Castell, lle roedd Richard Huws y gof yn pedoli a chylchu olwynion mewn cydweithrediad â'i fab a oedd yn saer coed yn y gweithdy i fyny'r grisiau. Yn y drws nesaf trigai Siani'r Efail yng nghanol y llygod mawr rheiny a oeddent yn cael eu denu gan naddion carnau meirch.

Ar ochr y ffordd o'r Ynys Iago i Garfan mae eiddo a elwid yn Buarth Gwarchwae i'r lle yr oedd anifeiliaid crwydrol yn cael eu gyrru. Fel cosb, yr oedd eu perchnogion yn gorfod talu pris am eu cadw a'u hadfer. Roedd yna hanes unwaith am rhyw dyddynwr o ochrau'r Rhiwlas a fyddai yno yn rheolaidd yn mofyn ei hwch a oedd, mae'n siŵr, yn dechrau mynd yn gostus iddo. Ond trawodd ar feddyginiaeth: aeth a phastwn o dan ei fraich a rhoddodd gythral o stid iddi yn y fan a'r lle. O ganlyniad nis gallai neb ei chael o fewn milltir i'r lle byth wedyn.

Cefnogwch ein
Hysbysebwy

Wrth fynd heibio nis gallaf lai na sôn am gysylltiad y lle yma a'm teulu. Priododd fy nhad ag Anne Jones, merch y Buarth ac aeth gyda hi i Utica, U.D.A., lle y sefydlodd gwmni 'haulage'. Bu hi farw a daeth fy nhad yn ôl i'w gynefin gyda'm brawd ac ailbriododd gyda fy mam, a oedd erbyn hynny wedi rhoi'r gorau i weini yn y tai mawr, ac yn cadw tŷ i fy nhaid gweddwr yn y Llan Isaf, Llanddeiniolen. Aethant wedyn i'r Gors, hen gartref fy nheulu. Roeddent wedi bod yn hen gariadon yn eu harddegau, ond cawsant rhyw ffrwgd fel y bydd rhai fel yna yn ei gael, am y nesaf peth i ddim mae'n debyg, ond hynny yn ddigon i ystumio eu tynged.

Y peth sydd yn fy nghyfareddu o hyd yw'r ffaith fod yna gymaint o leoedd yn y darn yna sy'n dwyn yr enw 'Ynys'. Yr Ynys Lwyd o fewn lled dau gae i'r Llan lle'm ganed. Yn ôl y llun yn llyfr yr *Eco* roedd yn adeilad cyntefig pan oedd Siôn a Mari Lewis yn trigo yno gyda tho o dywyrch. Dywedir mai tŷ unos oedd o'n wreiddiol. Yna Ynys Llecharion, ac Ynys Iago, ac yr oedd yna boncan eithin ar gwr y Rhydau: Ponc yr Ynys Wen, a'r Rhydau ei hun wedyn heb sôn am afon ar ei gyfyl. Digon i wneud rhywun gario'r syniad fod yr ardal yna rhywdro wedi bod yn ddyfrllyd, h.y. os nad oes yna ystyr heblaw'r amlwg i'r gair.

Ond rhyfgy yw ceisio dehongli hen enwau lluch-dafl. Clywais ddyn doeth yn dweud unwaith wrth dynnu i ben ei ddarlith ar y pwnc: 'Peth peryglus yw cynnwys esboniad ar enwau lleoedd heb wybodaeth enfawr gŵr fel Syr Ifor Williams i gadw dyn rhag cyfeiliorni.' Felly ei gadael hi ar hynna fyddai orau i minnau.

**Wavell
Roberts**
CIGYDD
London House
LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava



GEMINI
SERVICE CENTRE

Car neu Fan
Petrol neu Diesel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed eich
ac yn ymestyn oes eich car

AVW YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559



BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

DIOLCH. Dymuna Geraint a Myfanwy Harper, Fferm Tŷ Newydd, Llandegai ddiolch o galon i'w teulu, cynïdogion a ffrindiau am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth eu mab, Gethin Wyn. Diolch yn fawr hefyd am yr anrhegion a dderbyniodd Iwan Huw yn sgil ei frawd bach newydd. Diolch yn fawr iawn hefyd i staff Uned Mamolaeth Ysbyty Gwynedd am eu gofal. Diolch yn fawr iawn i bawb. CYDYMDEIMLO. Ddydd Gwener, 20 Chwefror, yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mrs M. G. Williams, Gwylfa gynt. Er nad oedd wedi bod mewn iechyd ers rhai blynedd oedd ei marwolaeth yn sydyn iawn yn y diwedd. Estynnir pob cydymdeimlad i leuan a Gwyneth a'r teulu yn eu profedigaeth.

MERCHED Y WAWR. Dan arweiniad y llywydd, Mrs Rita Dauncey Williams, dathlodd y gangen ddydd Gŵyl Ddewi yn y Bistro, Llanberis. Cawsom groeso cynnes a gwledd i'w chofio. Mwynhawyd adloniant o safon uchel gan chwech o ferch Prifysgol Bangor a diolchodd Glenys Griffiths iddynt.

Cydymdeimlwyd ag Eirlys Sharpe a Gwyneth Williams yn eu profedigaethau. Yr oedd y ddiweddar Mrs M. G. Williams, Gwylfa gynt, yn gyn-lywydd ac ysgrifennydd y gangen a phleser oedd i lawer o'r aelodau fod wedi

cael cydweithio â Mrs Williams yn y capel, yr eisteddfod leol neu ynglŷn â gweithgareddau'r gangen.

Llongyfarchwyd Mary Evans ar ddod yn nain i Owain Garmon. Dymunwyd yn dda i blant y pentref fydd yn cystadlu yn eisteddfod Sir yr Urdd. Diolchwyd i blant yr adran a'u hathrawon am eu llafur yn paratoi at eisteddfod yr Urdd.

Mae côr y gangen yn ymarfer ar gyfer Noson Werin sydd i'w chynnal yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon ar 24 Ebrill.

Cynhelir cyfarfod mis Ebrill yn **festri capel Bethel (A)** nos Fercher, 8 Ebrill am 7.30 o'r gloch yng nghwmni Eirug Wyn o'r Groeslon. CLWB 100 YR YSGOL. Enillwyr mis Chwefror oedd £20: Mr David Pritchard, Cae Gwyn, Ffordd Bangor, Y Felinheli (68); £15: Mr Gareth Griffiths, 17 Bryn y Môr, Y Felinheli (31); £7: Mrs Bessie Williams, Llys Myfyr, Penisarwaun (29). Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

CLWB 200 Y NEUADD. Enillwyr Chwefror oedd £20: Nia L. Griffiths, Glan Dŵr (197); £10: Sam Davies, Hafan Deg (138); £5 yr un: Carol Ann Jones, Penmaen ((98); Iorwerth Williams, 16 Tan-y-buarth (71); Hefin Jones, 7 Stad Eryri (113); Fred Jones, 3 Rhos-lan (151); Richard Parry, Rhos-lan (34); Olwen Williams, 8 Stad Eryri (18); Eunice Roberts, 4 Y Rhos (218); Gareth

Hughes, Erddig (86). Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

LLWYDDIANT YN YR URDD. Llongyfarchiadau mawr i aelodau'r Urdd o Fethel ar eu llwyddiant yn yr eisteddfodau cylch. Llongyfarchiadau i bawb fu'n cystadlu mewn partïon, corau, grwpiau dawnsio ac fel unigolion. Dymuniadau gorau i'r cystadleuwyr fydd yn cystadlu yn yr eisteddfodau sir, Lois ar yr alaw werin, Rhys Hughes yn chwythu'r corn, Huw Foulkes yn chwarae'r piano a Ceri Griffith yn canu. Dymuniadau gorau hefyd i barti llefaru dan 15 oed yr adran ac i Geraldine Jones fydd yn cystadlu yn y gystadleuaeth llefaru ailiaith; ac i Ffion fydd yn cystadlu gyda ffrind iddi yn y gystadleuaeth ymgom.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Nos Fawrth, 17 Mawrth yn festri'r Cysegr cafwyd noson hwyliog i ddiweddu'r tymor yng nghwmni Dyfan Roberts, Llanrug. Cafwyd sgwrs ddifys ar bwysigrwydd cerddi bychan yn y Gymraeg gan ddyfynnu nifer o hen benillion. Diolchwyd i Dyfan ar ran yr aelodau.

GWASANAETH ARBENNIG. Fore Sul, 22 Mawrth, cynhaliwyd oedfa arbennig iawn yn y Cysegr i ddathlu Sul y Mamau. Cymerodd nifer o'r aelodau a phlant ran yn y gwasanaeth, a drefnwyd gan Sam Davies, a dderbyniwyd nifer o blant yn gyflawn aelodau gan y gweinidog, y Parchg W. R. Williams.

YN DDEUNAW OED. Llongyfarchiadau i Dyfan Pyrs Elis, Cilgeran ar ddathlu ei ben-blwydd yn 18 oed ar 20 Mawrth.

Ailgydio yn y Gerddi

Mis Mawrth — mis y cennin Pedr. Bûm yn ffodus iawn o gael anrheg yn yr hydref o rai bach, ac maent yn edrych yn hyfryd mewn potiau pridd a'r grape hyacinth glas — y ddau liw yn cydfynd i'r dim. Ond hoffaf fi y cennin Pedr gwyllt.

Cofiaf yn fy mhientyndod cael mynd i'w hel un ochr ffordd at dŷ y teulu Armstrong Jones ym Montnewydd, sef Plas Dinas. Mae yna blas yn Llanrug hefyd gyda'r cennin dwbwl yno yn werth eu gweld. Mae'r glaswellt yn eu dangos i fyny. Dywedwyd 'gwisg hi ar y frest ond gwisg hi ar dy galon hefyd' ac roedd hi'n hyfryd eu gweld wrth inni ddathlu Gŵyl ein Sant.

Mae pobol yr amgylchedd yma yn dweud y drefn am fod pobl yn codi blodau gwyllt fel bwtsias y gog. Mae rhain hefyd yn mynnu gwrthio i mewn i'r ardd, ond mae pob blodyn yn hardd, hyd yn oed yr hen 'estron gwyllt o ddant y llew'.

Mae fy mynawyd y bugail wedi dal eu tir drwy'r gaeaf o dan do, ac rwyf wedi dechrau rhoi tipyn o ddŵr iddyn nhw, a pilsen fach.

Hwyl i bawb ar y garddio ffasiwn newydd yma, mewn potiau.



Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, penblwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant — disgo a.y.y.b. Bwydlen Bar a Restaurant Cinio Dydd Sul

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd DEINIOLEN

(01286) 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol.



CARPEDI GERAINT OWEN

GWERTHWYR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat — nosweithiau allan, partïon, triapiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



D. P. OWENS

RHIWLAS

01248-361044

GWYN JONES


FFENESTRI ERYRI

GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio



- ★ Porches
- ★ Byrddau Ffasia
- ★ Cladio
- ★ Conserfateris

12 MLYNEDD O BROFIAD YN Y MAES

SYSTEMAU RHYBUDD a GWASANAETH TRYDANOL



★ Lleihau y perygl o ladrad ★

Fe synnech mor hawdd a sydyn y gall eich cartref gael ei ddiogelu rhag lladron

BARGEN ARBENNIG!

Cyflenwi a gosod system am cyn lleied â
£250 (+ TAW)

(Pob system yn cydsynio â B.S. 4737)

Os oes gennych system eisoes ac angen ei uwchraddio, neu angen gwasanaeth cynnal a chadw, cysylltwch â ni:

(01286) 674422 neu (01248) 670923

AFALLON, BETHEL, CAERNARFON, GWYNEDD LL55 1UN

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263



Parchg Dafydd Hughes, gweinidog Capel y Rhos gyda'r teuluoedd a gymerodd ran yn y gwasanaeth Gŵyl Ddewi.

MERCHED Y WAWR. Yng nghyfarfod y gangen a gynhaliwyd nos Fawrth, 10 Mawrth, cydymdeimlwyd â Margaret Parry yn ei phrofedigaeth o golli ei mham. Diolchodd Bethanne Williams, y llywydd, i'r aelodau am eu dymuniadau da ar achlysur ei hethol yn Is-lywydd Rhanbarth Arfon. Diolchwyd i'r aelodau hefyd am eu gwaith caled yn paratoi bwyd yn Eisteddfod Cylch yr Urdd.

Cyhoeddwyd y bydd Noson Werin yn cael ei chynnal yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon, 24 Ebrill, pryd y bydd y gangen yn derbyn gwobr am y Llyfr Lloffion gorau; tocynnau £6 yn cynnwys bwffe, adloniant a dawnsio gwerin.

Mae ymgyrch genedlaethol wedi ei lansio gan Ferched y Wawr i ailgylchu alwminiwm a gofynnwyd i'r aelodau gasglu yn ystod y mis nesaf: ffoil cegin, papurau siocled, topiau poteli llefrith, pecynnau ffoil caled, a.y.y.b.

Gwesteion arbennig y noson i ddathlu Gŵyl Ddewi oedd Gwyn a Lisa Eryl, roedd yn addas iawn fod Lisa yn bresennol gan mae yn ei bro enedigol hi, yn Y Parc, y sefydlwyd y mudiad.

Talodd Gwyn Eryl deyrnged i'w wraig a'r merched eraill yn ei fywyd, sef ei bedair merch, tair wyres, ac yn arbennig i'w fam a fu byw i fod yn

97 oed ac a fu'n gyfrifol am feithrin ynddo ef a'i frawd, Gwilym Gwalchmai, eu cariad tuag at ganu. Soniodd am ei fynych deithiau dros y byd a'r pleser a gafodd mewn cyfarfod aelodau o genhedloedd eraill a'i neges oedd ei bod wedi cymryd cannoedd o flynyddoedd i ddatblygu ein traddodiadau a'n hanes a'i bod yn bwysig ein bod yn cadw ein cymeriad rhag y diwylliant Eingl-Americanaidd; cadw ein gwahaniaethau er yn rhan o'r un frawdoliaeth. Cyflwynodd Gwyn a Lisa Eryl ddetholiad o farddoniaeth ar Gerdd Dant a diolchwyd iddynt yn gynnes gan Menna Williams. Paratowyd cawl cennin blasus iawn gan Nan Humphreys.

Bydd cyfarfod nesaf y gangen ar 21 Ebrill (nid yr ail nos Fawrth) a gofynnir i'r aelodau ddod â hen greiriau i'w harddangos. Hwn fydd Cyfarfod Blynnyddol y gangen.

GWELLHAD. Da deall fod Irfon Thomas, Buarthau yn gwella wedi'i driniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Ara deg piau hi rŵan, Irfon. Cofier y dywediad: 'Ara deg mae dal iâr!' Pob dymuniad da am adferiad iechyd buan.

CAPEL Y RHOS. Dathlwyd Gŵyl Ddewi yng Nghapel y Rhos wedi'i drefnu gan y Gweinidog ac athrawon yr Ysgol Sul. Yr oedd yn hyfryd gweld y plant yn cymryd rhan —

dros 60 ohonynt — ac yr oedd yn ddathliad teuluol hefyd. Diolch yn fawr iddynt oll am y gwaith mawr ac ardderchog a wneir yn yr Ysgol Sul gydol y flwyddyn. Cofier am yr adnod, 'Gadewch i blant bychain ddyfod ataf fi...'

CROESO'N ÔL. Braf yw cael croesawu Mrs Munno a Miss H. Munno yn ôl i'r ardal wedi iddynt fyw am beth amser yn Lloegr. Roeddent yn darllen yr *Eco* yn gyson tra buont yn byw yn Corby. Byddant yn cartrefu yn 1 Penrallt, Ffordd yr Orsaf, Llanrug.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Margaret Parry, Bro Dawel a'i chwaer Eryl, a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth fawr o golli eu mam, sef Mrs Catherine Jones, Waunfawr. Cydymdeimlir hefyd â Mrs Morfina Cadwaladr, 7 Gwêl Fynydd a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth hwythau o golli ei mham, Mrs Hughes, oedd wedi ymgartrefu yn Gwêl Fynydd ers rhai blynnyddoedd.

LLONGYFARCHIADAU i Dave a Lynette, Glan Padarn, Ffordd yr Orsaf ar enedigaeth merch fach.

Y SEINDORF. Llongyfarchiadau mawr i'r seindorf am ddod yn gyntaf mewn cystadleuaeth a gynhaliwyd

yn Abertawe ddydd Sul, 15 Mawrth. **PLAID CYMRU.** Treuliwyd noson ddifyr nos Fawrth, Mawrth 12 yn dathlu Gŵyl Ddewi yng Nghanolfan Cymuned Penisarwaun.

Elfyn Llwyd, AS, oedd y gŵr gwadd ac yn ei anerchiad soniodd am y profiadau digri a difri a gafodd yn ystod ei dymor fel Aelod Seneddol Meirionydd-Nant Conwy ers 1992.

Mae heddiw yn gyfnod cyffrous yn hanes Cymru ac mae gennym le i ddiolch am dwf y Blaid, y diddordeb cynyddol yn yr iaith Gymraeg a'r ewyllys da tuag ati, a hyder yr ieuainc wrth wynebu'r dyfodol gyda Chynulliad ar fin cael ei sefydlu. Atebodd nifer o gwestiynau ar bynciau'n amrywio o Ewrop i gynghorau lleol ac etholiad y Cynulliad, a chafwyd trafodaeth fywiog dan lywyddiaeth Miss Phyllis Ellis. Yn dilyn, mwynhawyd gwledd o gawl blasus a baratowyd gan ferched Penisarwaun. Enillydd raffl y noson oedd Megan Williams, Y Felinheli.

Enillwyr Clwb Cant Chwefror: 1, Arwel Jones; 2, Helen Parry. Mawrth: 1, Dafydd Whiteside Thomas; 2, Ann Thomas.



Tim dan 15 (juniors) Llanrug yn derbyn crysau newydd wedi eu cyflwyno gan Andrew Thornley, perchennog maes carafanau Bryn Teg.

CYNGOR CYMUNED LLANRUG

Gwahoddir ceisiadau oddi wrth unigolion neu gwmnïau fyddai â diddordeb mewn cynnig am y gwaith canlynol yng Nghymuned Llanrug:

- (a) Gofalaeth Mynwent y Plwyf
- (b) Cynnal a chadw caear chwarae (tri mewn nifer)

Gellir cael manylion pellach oddi wrth:

Mr Gwyndaf Jones, Clerc y Cyngor
60 Glanffynnon, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4PR
Dyddiad cau derbyn tendrau fydd 14 Ebrill 1998

GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO

24 awr y dydd — 7 diwrnod yr wythnos

PLUM24CYM

Gwaith Plymio :: Gosod Ceginau a Bathrwm
Gwaith cynnal a chadw o bob math

Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491


Uned 1A BRYNAFON LLANRUG

Ffôn: (01286) 650732 (fin nos)

FFENESTRI : DRYSAU
DODREFN : GRISIAU
GWAITH TURNIO
BLYCHAU CLOCIAU
BLYCHAU DAL OFFERYNNAU
BLYCHAU ARDDANGOS



CROESAIR MAI



ENW

CYFEIRIAD

1 ar draws (1,7) oedd un o ddigwyddiadau pwysicaf mis Mawrth: fel y disgwyliid, 9 ar draws (4) wnaeth 27 i lawr (4) 6 i lawr (4), 23 ar draws (6) a 16 ar draws (8). Wnaeth 27 i lawr 31 ar draws (6) ddim 9 ar draws.

AR DRAWS

6. Y gêm honno cae Cedric wedi gwirioni amdani (6)
10. Teimlo'n flin am rywbeth a wnaed neu a adawyd heb ei wneud (7)
11. 0x0 (3)
14. Un sy'n cuddio yn y ddaear (6)
17. Mae lan a Nest wedi gwirioni efo'i gilydd ac yn agosáu (7)
20. Cig o ran ucha'r llwyn (7)
22. Dwy esgid flêr wedi eu gwasgu (8)
28. Rhoi addewid (3)
29. Clwyf arwynebol o fra Cadi! (7)
30. Tir i dyfu blodau (4)
32. Y gowt! Ted, o stwr anghyffredin (8)

I LAWR


2. Traean o'r swllt! (4)
3. Gwlybaniaeth (6)
4. Dyn ddwad (8)
5. Cyhuddo o adael rhywbeth heb ei orffen (4)
7. Rhai sy'n cydweithio i roi rhywbeth ar droed (3-8)
8. Dilyn Simon — mae hyd a lled iddo pan yn feddw (11)
12. Merch ddiffuant? (5)
13. Gweddi'r Arglwydd (5)
14. Y ferch sy'n dod â'r neges (11)
15. Gwneud yn wamal, o gesail Dyfan meddwol heb ddiwedd ysmala (11)
18. Ffurf ar rediad berf i fynegi gwahanol adegau (5)
19. Ni fentra Islwyn gynnwys gorthrwm (5)
21. Byw heb fwyd am dymor (8)
24. Nod Edgar chwil ar ôl gorffen peint (6)
25. Cawell baban (4)
26. Blwch mawr (4)

ATEBION CROESAIR MAWRTH

Derbyniwyd atebion cywir i groesair Mawrth gan Eirwen Roberts, Tregarth; Ceinwen Williams, Bethel; Mair Evans, Caernarfon; N. Hughes, Cwm-y-glo; E. E. Jones, Rhos-hirwaun; Hywel Griffith, Awstralia; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; Iorwerth a Jean Williams, Caernarfon; M. Ffoulkes, Penisarwaun; G. Gill, Bangor; Mary Davies, Waunfawr; Catherine A. Jones, Rhiw; John Hughes-Jones, Rhiw; Dafydd Owen, Penisarwaun; Elfed Evans, Llanllechid; Nansi Davies, Rhuthun; Dilys A. Pritchard-Jones, Ynys; E. P. Jones, Penrhyn-deudraeth; Huw Tegid Roberts, Llanrug; Eluned Jones, Pencaenewydd; Rosemary Williams, Tregarth; M. P. Jones, Clynog a Jennie Williams, Clynog.

Ymdrech Huw Tegid Roberts, Arwel, Llanrug ddaeth allan o'r het. Longyfarchiadau a'r £5 iddo.

Gyrrwch atebion croesair Ebrill at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Caernarfon LL55 3HE erbyn Ebrill 20, os gwelwch yn dda.



Dyddiadur y Mis

DYDDIADUR MIS EBRILL

MAWRTH

29. Sul **LLANRUG:** Cwis Tafarn yn y Penbont gan yr Ysgol Feithrin am 8.45 p.m.
1. Mer **CWM-Y-GLO:** Ffair Wanwyn yn yr Ysgol o 6.30 hyd 8.30.
2. Iau **BRYNREFAIL:** Cymdeithas y Chwirydd yn y Ffestri.
- PENISARWAUN:** Noson o weithgareddau yn y Neuadd am 6.30.
- LLANBERIS:** Ffair Wanwyn yn Capel Coch am 7.
7. Maw **LLANBERIS:** Y Gymdeithas Lenyddol. Sgwrs gan y Parchg W. R. Williams.
8. Mer **DEINIOLEN:** Pwyllgor y Gymdeithas Adnewyddu am 7.
9. Iau **(Dydd Iau Cablyd) DEINIOLEN:** Cyfarfod y Chwirydd am 2 — dathlu'r Pasg. Y Cyngor Eglwys — Cymundeb yng Nghapel Libanus am 7 o'r gloch.
- CWM-Y-GLO:** Undeb y Mamau yn Hafan Elan, Llanrug.
10. Gwe **(Dydd Gwneir y Groglith) LLANBERIS:** Cymundeb yn Capel Coch am 10 a.m.
- DEINIOLEN:** Awr dawel am 2 yn Eglwys Llandinorwig.
- PENISARWAUN:** Awr dawel am 2 yn Eglwys y Santes Helen.
12. Sul **(Sul y Pasg) DEINIOLEN:** Cymun y Pasg yn Eglwys Llandinorwig am 9 a.m. Cyfarfod Pregethu Cefnywaun am 10 a.m. a 5 p.m. gyda'r Parchg Gwyn Erfyl, Bangor.
- PENISARWAUN:** Cymun y Pasg am 10.30 a.m. yn yr Eglwys
14. Maw **DINORWIG:** Eisteddfod y Pentref am 6.30 p.m. yn y Ganolfan.
16. Iau **LLANBERIS:** Cyngerdd gan Lleisiau Lliwedd yn Capel Coch.
- LLANRUG:** Plaid Cymru — noson yng nghwmni Mrs Mary Vaughan Jones, yn y Ganolfan, Penisarwaun, am 7.30 p.m.
20. Llun **BRYNREFAIL:** Sefydliad y Merched.
- DEINIOLEN:** Merched y Wawr — sgwrs gan Cledwyn Jones, Bangor.
21. Maw **LLANRUG:** Merched y Wawr — 'Hen Greiriau'.
24. Gwe **LLANRUG:** Noson Werin Merched y Wawr yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon.
25. Sad **DEINIOLEN:** Merched y Wawr yn ymweld â Chastell Bodelwyddan.
26. Sul **WAUNFAWR:** Cymanfa Ganu yng Nghapel Croesywaun am 7.30 p.m. yng nghwmni Côr y Waun.

AR ACHLYSUR EI

YMDDEOLIAD, DYMUNA
GWILYM PLYMAR,
(W. J. GRIFFITH)
PANT TIRION, LLANRUG
DDIOLCH I BAWB AM EU
CEFNOGAETH DROS Y
BLYNYDDOEDD.

MAE'R GWAITH YN
PARHAU GYDA:

CLIVE GRIFFITH
(01286) 676251

A

GERALD GRIFFITH
(01286) 831141



ORIEL
CWM
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa

o luniau gwreiddiol
gan Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

Argraffiad Cerdd Cyflawn

EMYNAU'R
LLAN

Y Llyfr Emynau Cymraeg diweddaraf
Angenrheidiol i bob offeiriad a
Gweiniog, pob arweinydd côr
a chynulleidfa

450 o emynau Cymraeg clasurol a
chyfoes gyda solffa a
hen nodiant ochr wrth ochr

Pris gostyngol (tan 10 Ebrill)

BARGEN am £10

Gellir cael copïau o Swyddfa'r
Esgobaeth, Clos y Gadeirlan, Bangor
(01248) 354350

neu drwy'r post o Gyhoeddiadau'r
Eglwys yng Nghymru,
Woodland Place, Penarth CF64 2EX
(01222) 705278

SPAR

Y STORFA
LLANRUG

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug

CHWARAEON

A oes cysondeb?

O siarad â rhai o swyddogion cynghreiriau pêl-droed rwyf yn ymwybodol o'r pryder sydd am y dirywiad yn ymddygiad rhai o dimau ieuencid Gogledd Cymru. Mae un tîm wedi'i wahardd o Gynghrair Môn. Byddaf yn cael ambell gais i ddyfarnu gêm, ac yna'r geiriau, 'Rydan ni'n chwarae yn erbyn'. Wn i ddim beth maent yn ei ddisgwyl yn wahanol gen i i unrhyw ddyfarnwr arall gan fod y rheolau yn hollol amlwg. Anghysondeb yw'r broblem, yn arbennig ynglŷn â'r iaith sy'n dderbyniol ai peidio. Rhaid i reolwyr y timau roi mwy o gefnogaeth i ddyfarnwyr. A ydynt trwy fod yn ddistaw yn cefnogi ymddygiad sâl eu chwaraewyr? Mae'n amlwg bod y broblem yn gwaethygu gan mor aml mae enwau

ieuencid i'w gweld ar restr gwaharddiadau'r Gymdeithas Bêl-droed. Rhaid canmol y Gymdeithas am ei safiad pendant trwy roi gwaharddiadau llym. Gobeithio bydd y cosbi hwn yn gyson. Rhaid ystyried beth yw'r drosedd wrth gwrs. Yr hyn sy'n gwneud i mi ddweud hyn yw dau achos a gafwyd yn ddiweddar. Y cyntaf oedd achos bachgen oedd wedi'i lorio â thaci ddrwg yn taflu mwd at y troseddwr; cafodd gerdyn coch a'i wahardd am 70 diwrnod. Yr ail achos oedd bachgen a ddyrnodd ei wrthwynebydd; cafodd gerdyn coch, ond dim ond 21 diwrnod o waharddiad. Yn amlwg nid oes cysondeb o fath yn y byd rhwng y ddau achos.

Ras Moel-y-ci, Rhiwlas

Gyda tymor y rasio traws-gwlad yn dirwyn i ben fe ddaeth yn amser i'r hogia rhedeg mynydd chwilio am eu sgidia dringo! Ras Moel-y-ci yn draddodiadol yw'r gyntaf o rاس mynydd y tymor yn Eryri. Mae'n ras fendigedig i roi cychwyn da i'r tymor gan nad yw ond cwta dair milltir o hyd, gyda bron i wyth can troedfedd o ddringo.

Eleni roedd y grug yn eithriadol o drwchus ac yn hongian dros y llwybr cyfyng gan wneud pethau'n bur anodd wrth ddisgyn o'r copa. Eto'i gyd llwyddodd James McQueen i orchfygu'r grug, a'r rhedwyr eraill, gan dorri'r record am y cwrs a chyrraedd yn ôl i bentref Rhiwlas mewn deunaw munud ac un ar ddeg eiliad. Mae'n argoeli am dymor da iawen eto eleni i James, sy'n aelod o Glwb Rhedwyr Eryri.

Yn ail yn y ras roedd Emlyn Roberts, 'hen' redwr sydd wedi bod yn 'gorffwyso' ers rhyw bedair blynedd ond bellach wedi ailafael ynddi ac yn brys adennill ei ffitrwydd a'i allun anhygoel i redeg rاس mynydd. Gwyliwch am yr enw hwn yn ystod 1998.

Yn yr un ras hefyd daeth Alun Vaughan o Lanberis yn bedwerydd, canlyniad da iawn o gysidro ei fod yn mentro'n ôl am y tro cyntaf wedi anafiadau. Dylai eleni fod yn flwyddyn lwyddiannus iddo yntau hefyd.

Rasys Ebrill

Ar y Sadwrn cyntaf o Ebrill bydd carfan fechan o redwyr yn mentro i ardal Pendle yn Swydd Gaerhirfryn i gystadlu yn y ras gyntaf yng nghyfes Pencampwriaeth Rasys Mynydd Prydain. Y gobaith yw cael cynrychiolaeth o

ddynion, dynion hŷn a merched yn y ras er mwyn galluogi Clwb Rhedwyr Eryri i drio ennill un o'r gwobrau timau.

Ddydd Sadwrn, 18 Ebrill, bydd Ras y Moelwyn yn cychwyn o Flaenau Ffestiniog, ac yna'r Sadwrn dilynol bydd Ras Craig Goch yn cael ei chynnal o Nebo.

Nos Fawrth, 21 Ebrill, o Westy Dolbadarn, Llanberis bydd y gyntaf o rasys mynydd Cynghrair Nos Fawrth yn dechrau. Mae'r rhain wedi profi'n boblogaidd iawn dros y blynyddoedd diwethaf gyda rhwng hanner cant ac wyth deg o redwyr yn troi allan yn rheolaidd. Mae hefyd yn rhoi cyfle da i rai sydd am flas rhedeg mynydd am y tro cyntaf. Bydd saith o'r rasys hyn yn cael eu cynnal o hyn i ganol mis Gorffennaf.

Pigion wrth Basio . . .

Llongyfarchiadau i lolo Evans, rheolwr Llanbêr, am ennill 'Tlws Rheolwr y Mis' Cynghrair Fitlock. Cafodd y tîm rediad da yn ddiweddar mewn gemau cwpan a chynghrair. Gydag ambell gêm mewn llaw mae gan y Locos gyfle i orffen y tymor ymhlith y tri uchaf. Fel y llynedd mae'r tîm yn tueddu i chwarae orau yn erbyn y timau gorau. Roedd eu perfformiad yn erbyn Hotspurs Caergybi o safon uchel. Maent yn haeddu o leiaf un cwpan eleni.

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng Trefor Foulkes ac Alex Ferguson? Mae gan Trefor Foulkes gyfle am y 'trebl'. Trefor yw rheolwr tîm dartiau Bedol A. Mae'r frwydr rhyngddynt a Halfway Tal-y-sam yn agos a ffyrnig ar frig yr ail adran. Bydd gêm olaf y tymor rhyngddynt yn Nhal-y-sarn. Mae'r Bedol hefyd yn rownd gynderfynol y cwpan ac yn arwain y gynghrair 601. 'Pressure', hwnna ydion!

Chwaraeon Brynrefail

TÎM Y FLWYDDYN. Daeth y goron olaf i dîm pêl-droed dan 12 llwyddiannus y llynedd. Y tîm hwn enillodd gwpan Cymru eu hoedran. Dyfarwyd tlws 'Tîm y Flwyddyn' trwy Wynedd gyfan iddo, a bu Mr Holland a Marcus, Keith ac Owain yn y noson wobrwyo ym Meddgelert i dderbyn y wob. Roedd siec yn ogystal â thlws i'r enillwyr. Edrychwn ymlaen at weld datblygiad y tîm yma yn ystod gyrfa ysgol yr hogia.




O DRWCH BLEWYN. Daeth Gavin Roberts yn agos at gael fest ryngwladol yn dilyn perfformiad glew yn y gystadleuaeth traws-gwlad genedlaethol yn Llanidloes. Roedd 78 yn rhedeg ras y bechgynb iau. Llongyfarchiadau i Gavin am orffen yn yr unfed safle ar ddeg. Yn anffodus, y deg cyntaf yn unig oedd yn cael lle yn y garfan genedlaethol. **GYMNASTEG.** Soniwyd y tro diwethaf bod Mathew Pike a Lucy Stevens yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Eryri yng Nghaergybi. Cawsant lwyddiant ac erbyn hyn maent wedi bod yng Nghaerdydd yn y Bencampwriaeth Genedlaethol.

PÊL-DROED. Eleni cafwyd cynrychiolaeth dda o'r ysgol yng ngharfannau Gwynedd y gwahanol oeddrannau. Llongyfarchiadau i Owain Williams, Alistair Addison, Owain Morris, Dewi Jones, Marcus Orlik a Gavin Powell.

PÊL-FASGED. Mae aelodau'r tîm pêl-fasged dan 14 oed yn cnoi ei hewinedd ar hyn o bryd, gan eu bod mor agos i deithio i Gaerdydd i Bencampwriaeth Cymru. Daeth Brynrefail yn bencampwyr Gwynedd trwy guro ysgolion Syr Hugh, Y Moelwyn, Eirias (Bae Colwyn), Caergybi (hen ysgol Mr Holland hyfforddwr y tîm), a David Hughes. Wedyn trechwyd tîm gorau cylch yr hen sir Clwyd, sef Ysgol Dinas Brân, Llangollen o 37-10. Rhaid bellach ddisgwyl am ganlyniad y gêm rhwng Caergybi ac Ysgol Dewi Sant, Saltney. Os mai'r Monwysion fydd yn fuddugol, caiff Brynrefail drip i Gaerdydd. Os mai Saltney fydd yn fuddugol bydd angen play-off rhwng Brynrefail a hwythau.

DAWN YSGRIFENNU. Dros y misoedd diwethaf bu Cymdeithas Bêl-droed Cymru ac undeb athrawon yr NUT yn cynnal cystadleuaeth 'Cicio Hiliaeth o Bêl-droed'. Gofynnwyd i blant ysgol lunio erthygl ar gyfer cylchgrawn chwaraeon. Aeth disgyblion y bedwaredd set yn y gwersi Saesneg ym mlwyddyn 10 ati i ysgrifennu erthyglau fel rhan o'u maes llafur. Buont yn llwyddiannus yn y gystadleuaeth, a bu Louise Armstrong, Darren Owen ac Anthony Foulkes yng Nghaerdydd yn y seremoni wobrwyo. Diolch iddynt am dynnu sylw at un o agweddau gwaethaf unrhyw gamp.



RYGBI. Bu nifer o blant ysgolion cynradd yr ardal yn mynychu cyrsiau hyfforddi yng Nghlwb Rygbi Caernarfon. Dewiswyd rhai o'r ardal i dîm ysgolion cynradd Gwynedd a wnaeth gryn enw iddo'i hun. Mae rhai o'r bechgyn yn ddisgyblion ym Mrynrefail erbyn hyn, a chafodd tîm

blwyddyn 7 yr Ysgol gêm ryfeddol yn erbyn Ysgol Dyffryn Ogwen yn ddiweddar. 35-35 oedd y sgôr terfynol. Cafodd Brynrefail 7 cais a sgoriwyd gan Eifion Williams (4), Ceiron Owen, Adam Griffiths a Jason Deemer.

**MANYLION AM DLWS YR ECO
YN Y RHIFYN NESAF - dechreuwch baratoi**